

**EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD  
YN Y FLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**

**CYFLAWNI EIN 3YDD CYNLLUN CORFFORAETHOL (CC3)**

## **EIN GWELEDIGAETH AR GYFER TORFAEN**

**Torfaen: Lle diogel, ffyniannus, cynaliadwy lle  
mae gan bawb y cyfle i wneud eu gorau**

## **EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD**

**Cefnogol; Teg; Effeithiol; Arloesol**

## **EIN HADRODDIAD AR BERFFORMIAD YN 2018/19 CYFLAWNI EIN 3YDD CYNLLUN CORFFORAETHOL (CC3)**

	<b>Rhagair</b>	<b>Tud. 4</b>
<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>Tud. 5</b>
<b>2.</b>	<b>Gwelliannau yn Nhorfaen</b>	<b>Tud. 5</b>
<b>3.</b>	<b>Ein hamcanion gwella</b>	<b>Tud. 5</b>
<b>4.</b>	<b>Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol</b>	<b>Tud. 6</b>
<b>5.</b>	<b>Gweithio mewn partneriaeth</b>	<b>Tud. 7</b>
<b>6.</b>	<b>Ein Perfformiad yn 2018/19</b>	<b>Tud. 8</b>
<b>7.</b>	<b>Bodddhad y Cyhoedd ac Ymgysylltu â Dinasyddion</b>	<b>Tud. 12</b>
<b>8.</b>	<b>Herio Ein Perfformiad</b>	<b>Tud. 13</b>
<b>9.</b>	<b>Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt</b>	<b>Tud. 14</b>
	<b>Atodiad 1 – Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd</b>	<b>Tud. 16</b>
	<b>Atodiad 2 – Codi Cyrhaeddiad Addysgol</b>	<b>Tud. 26</b>
	<b>Atodiad 3 - Cymorth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen</b>	<b>Tud. 37</b>
	<b>Atodiad 4 - Ein perfformiad yn 2018/19 - Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus</b>	<b>Tud. 48</b>

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad blwyddyn ariannol ar berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn 2018/19, a baratowyd o dan ran un, adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Rhagair

Croeso i ein hadroddiad ar berfformiad yn 2018/29, dogfen statudol sy'n dangos y gwelliannau a wnaed i wasanaethau ar draws nifer o feysydd penodol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad yn adolygu'r holl waith a gwblhawyd gennym i wella ein gwasanaethau, ac mae'n nodi ein hunanwerthusiad o'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn.

2018/19 oedd y drydedd flwyddyn i ni weithredu ein Cynllun Corfforaethol cyfredol, CC3. Mae'r cynllun yn nodi ein tair blaenoriaeth i Dorfaen tan ddiwedd 2020/21; Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd, Codi Cyrhaeddiad Addysgol, a Chefnogaeth i'r Trigolion mwyaf Bregus yn Nhorfaen.

Rhaid oedd inni fod yn realistig ynghylch yr hyn y gallem ni ei gyflawni yn dilyn nifer o flynyddoedd o doriadau yn y gyllideb. Rydym yn deall ac yn derbyn nad ydym bob amser yn y sefyllfa orau i arwain ar gyflawni rhai gwelliannau. Felly mae ein blaenoriaethau nid yn unig yn cynrychioli'r meysydd hynny y byddwn yn ymdrechu i'w gwella er mwyn gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, ond y meysydd hynny y gallwn ddarparu cefnogaeth i ddinasyddion er mwyn iddynt fedru cyflawni drostynt eu hunain neu lle rydym yn disgwyl i drigolion ei wneud drostynt eu hunain.

Er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol heriol parhaus a roddwyd arnom; trwy reoli ein cyllidebau yn ofalus, adolygu a newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau a chydweithio ag eraill, rydym yn falch o ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni'r tri amcan gwella a gyhoeddwyd gennym. Ni wireddwyd ein huchelgeisiau i gyd ac ni wnaeth pob un o'n gweithgareddau gyflawni'r buddion a ddymunwyd. Fodd bynnag, trwy asesu ein cynnydd, adolygu ein gweithgareddau a gweithio gyda'n partneriaid, byddwn yn gwneud newidiadau gwybodus i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Bydd angen i ni barhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o liniaru effaith sylweddol y toriadau blynyddol yn y gyllideb. Rydym yn gwneud arbedion sylweddol bob blwyddyn ac nid oedd 2018/19 yn wahanol gydag arbedion gwerth £4.6 miliwn. Yn ogystal â hynny, yn y broses o osod a chytuno ar ein cyllideb ar gyfer 2019/20, rhaid oedd inni ganfod arbedion pellach o £3.5 miliwn.

Wrth inni edrych ymlaen at y dyfodol rydym yn sylweddoli'r angen i wneud pethau'n wahanol er mwyn cwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu. Heb os, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn anodd ac o'r herwydd bydd ein rhaglen drawsnewid uchelgeisiol T22 yn ganolog i ni allu darparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. Rydym yn parhau i weld galw cynyddol a phwysau o ran costau, ynghyd â gostyngiad mawr mewn buddsoddiadau ac adnoddau. Felly dim ond trwy barhau i feddwl sut y gallwn wneud pethau'n wahanol y gallwn gyflawni Blaenoriaethau ein Cyngor. Bydd angen gwneud llawer o benderfyniadau anodd, ond trwy gynllunio a darparu ein gwasanaethau mewn modd cynaliadwy, rydym yn hyderus y byddwn yn gwneud y dewisiadau cywir. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r gwasanaethau rheng flaen a ddarperir, ond gall hyn olygu lefelau llai o wasanaethau yn ein meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth inni neu symud tuag at mwy o waith ataliol. Wrth wneud hynny, bydd ein ffocws yn symud i leihau dibyniaeth ar wasanaethau awdurdodau lleol a ariennir yn gyhoeddus a hyrwyddo mwy o hunandibyniaeth.

Yn olaf, yn dilyn cyhoeddi Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Torfaen, mae gennym bellach gyfres o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt, yr ydym ni i gyd fel partneriaeth ranbarthol o wasanaethau cyhoeddus wedi cytuno i weithio tuag atynt. Felly rydym bellach wedi dechrau ar y cam cyflawni ar gyfer Cynllun Llesiant uchelgeisiol y BGC. Yn y blynyddoedd i ddod bydd y bartneriaeth yn dechrau chwarae llawer mwy o ran wrth ddarparu gwasanaethau yn Nhorfaen. Trwy gyd-fuddsoddi amser ac adnoddau rydym yn hyderus y gallwn gyflawni ein dyheadau ar y cyd a gwireddu'r cyfle i gyflawni mwy gyda'n gilydd nag a fyddai'n bosibl ei wneud ar ein pennau ein hunain.



Y Cynghorydd Anthony Hunt  
Arweinydd y Cyngor



Alison Ward CBE  
Prif Weithredwr

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd arnom i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi cynllun sy'n nodi ein hamcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Unwaith y byddwn mewn sefyllfa i roi cyfrif am ein gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn honno, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad yn dangos ein perfformiad.

Diben yr adroddiad hwn yw cyflawni'r gofyniad statudol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Adolygiad o'n perfformiad ni ydyw a chaiff ei lunio ar sail y dystiolaeth sy'n dangos yr amcanion gwella y cytunwyd arnynt ac a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol a'r effaith a gafwyd yn sgil ein gweithgareddau.

Trwy asesu'n fanwl p'un ai a fu ein cynnydd yn araf neu heb gyflawni perfformiad ar lefel yr oeddem yn ei ddymuno, gallwn addasu'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen.

Weithiau mae'n anodd mesur y canlyniadau sy'n deillio o'n gwasanaethau, yn enwedig os na fydd y manteision yn amlwg am nifer o flynyddoedd. Rydym yn parhau i ddyfeisio mesurau perfformiad mwy effeithiol i ddangos a yw pobl mewn gwell sefyllfa o ganlyniad y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gennym.

## 2. Gwelliannau yn Nhorfaen

Daeth ein [Trydydd Cynllun Corfforaethol, CC3](#) i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2016 tan fis Mawrth 2021. Yn ddogfen a arweinir gan gynghorwyr, cafodd ei datblygu ar ôl ystyried ystod helaeth o ddata a gwybodaeth; canlyniadau ein harolwg trigolion yn Awst 2015; canfyddiadau ymarfer "dadansoddi bylchau" yn dangos pa wasanaethau

sy'n cael eu hystyried yn bwysig, yn ogystal â rhai a oedd angen eu gwella; ac ymarfer ymgysylltu helaeth gyda'r cyhoedd.

Mae'n cynnwys tair blaenoriaeth, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gan ein cynghorwyr ...

... **Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd**

... **Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

... **Cefnogaeth i'r Trigolion Mwyaf Bregus yn Nhorfaen**

Mae'r Cynllun yn darparu gweledigaeth glir i'r Cyngor cyfan, gyda chyfres o flaenoriaethau sy'n darparu fframwaith i greu dyfodol tecach lle mae pawb yn cynnal cymunedau glanach a gwyrddach, lle mae pobl ifanc yn derbyn addysg o'r safon orau bosibl a lle mae gan bawb y cyfle i fyw bywydau iach ac annibynnol waeth pwy ydyn nhw neu ble y maen nhw'n byw.

Wrth bennu ein blaenoriaethau, fe wnaethom hefyd gytuno ar gyfres o ddatganiadau ategol sy'n disgrifio'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni ar gyfer dinasyddion; cynllunio i gefnogi dinasyddion i gyflawni; a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl i drigolion wneud drostynt eu hunain i helpu i yrru cynnydd yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r datganiadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn derbyn ac yn deall nad ydym bob amser yn y sefyllfa orau i arwain ar gyflawni gwelliannau. Maent yn egluro ein bwriad yn glir i addasu'r ffordd yr ydym yn cydweithio gyda chymunedau lleol i greu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy i Dorfaen.

## 3. Amcanion Gwella

### ➤ Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2018/19:

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi amcanion gwella blynyddol, gan nodi sut rydym yn bwriadu canolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau cywir a gwella'r meysydd sydd o'r pwys mwyaf i ddinasyddion Torfaen.

Mae'r 3 blaenoriaeth yn ein cynllun corfforaethol yn cynnig fframwaith naturiol ar gyfer gosod a chyflawni ein hamcanion gwella, pob un â'r bwriad clir o:

- Ddiffinio ein cyfeiriad yn y dyfodol, gan ddatgan yn glir yr hyn yr ydym yn disgwyl ei gyflawni;
- Hwyluso cynllunio ein gwasanaethau a'n gweithgareddau mewn ffordd gydlynol;
- Darparu cefnogaeth am benderfyniadau effeithiol;
- Galluogi ein hadnoddau i gael eu dyrannu'n effeithlon;
- Darparu ffordd o fesur a monitro ein cynnydd;
- Cymell a llywio ein gweithwyr yn y gwaith y maent yn ei wneud; a
- Sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd cynaliadwy i wella lles yn Nhorfaen.

Felly, fe wnaeth ein hamcanion ar gyfer 2018/19 a gyhoeddwyd yn ein cynllun gwella blynyddol ddeillio'n uniongyrchol o'n Cynllun Corfforaethol ...

### **Amcan Gwella 1 ... Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd**

Ein Gweledigaeth... Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddo.

### **Amcan Gwella 2 ... Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

Ein Gweledigaeth ... Mae ein holl bobl ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.

### **Amcan Gwella 3 ... Cefnogaeth i'r Trigolion Mwyaf Bregus yn Nhorfaen**

Ein Gweledigaeth – Cymuned iachach lle mae'r bobl fwyaf bregus yn cael y cymorth i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i atal dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb.

Adlewyrchwyd y ffocws hwn yn ein [cyllideb y cytunwyd arni](#) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, gyda'r gweithgareddau cysylltiedig wedi'u nodi yn ein cynlluniau gwasanaeth.

Cynhaliodd ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Materion Trawsbynciol sesiwn gweithdy craffu dros ddau ddiwrnod ym mis Ionawr 2018. Rhoddodd y sesiwn gyfle i aelodau'r pwyllgor craffu graffu ar y gweithgareddau gwella arfaethedig a nodwyd o dan dri maes blaenoriaeth y cynllun corfforaethol, cyn eu cynnwys a'u cyhoeddi yng Nghynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2018/19. Ar yr un pryd, ystyriodd yr aelodau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r arbedion yr oedd angen eu gwneud.

Yn dilyn y newid mewnol hwn, fe wnaeth y Cyngor llawn gytuno ar gynllun statudol fyddai'n cael ei gyhoeddi, gan nodi'r gweithgareddau, targedau a mesurau allweddol y bydd ein meysydd gwasanaeth yn mynd ati i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf i yrru gwelliannau yn y meysydd sy'n flaenoriaeth i ni.

Trwy fonitro ein cyllidebau a'n cynlluniau gwasanaeth yn effeithiol rydym wedi paratoi'r asesiad hwn o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 ochr yn ochr â'n gweithgareddau gwella arfaethedig.

### **➤ Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20:**

O ran y flwyddyn ariannol gyfredol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau cywir i wella'r meysydd sydd o'r pwys mwyaf i ddinasyddion yn Nhorfaen. Felly mae ein hamcanion gwella blynyddol yn parhau i ddeillio'n uniongyrchol o'n Cynllun Corfforaethol.

Cafodd ein hamcanion gwella ar gyfer 2019/20 eu mabwysiadu gan y cyngor llawn ym mis Mawrth 2019 a hynny'n rhan o'n [Datganiad Lles 2019/20](#).

## **4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

O ddechrau 2017/18, roedd hi'n ofynnol i ni gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn gosod nifer o amcanion lles trwy gyhoeddi Datganiad Lles yn flynyddol. O ystyried bod y gofyniad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y teimlad oedd ei fod yn

bwysig dangos cysylltiadau cryf rhwng ein hamcanion gwella a'n hamcanion lles.

Felly, yn 2018/19 fe wnaethom ddewis ein hamcanion lles i fod yn 6 phrosiect allweddol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'n cynllun corfforaethol / amcanion gwella, lle gallem gael effaith sylweddol ar les trigolion yn Nhorfaen:

### **TORFAEN SY'N LÂN AC YN WYRDD**

1. Gweithio fesul ardal Strydlun
2. Newid ymddygiad tuag at wastraff

### **CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL**

3. Adolygu Addysg Ôl-16
4. Datblygu cynnig lles i bob plentyn

### **DARPARU CEFNOGAETH I'R TRIGOLION MWYAF BREGUS YN NHORFAEN**

5. Ail-gynllunio gwasanaethau i oedolion
6. Gofal cartref cynaliadwy

Mae'r gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hamcanion gwella a lles a ddetholwyd gennym wedi eu nodi yn ein [Datganiad Lles 2019/20](#). Mae'r rhain yn cydnabod ac yn dangos ein hymrwymiad i gyflawni gwelliannau parhaus yn y meysydd sy'n flaenoriaeth i ni.

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Lles blynyddol statudol cyntaf ym mis Mawrth 2019 (wedi ei gynnwys yn ein [Datganiad Lles 2019/20](#)), a oedd yn cynnwys y diweddaraf am ein cynnydd o gymharu â'n hamcanion lles.

### **➤ Ein hamcanion lles ar gyfer 2019/20**

Yn ystod y 2 flynedd gyntaf o osod amcanion lles i gydymffurfio â deddf LICD, bu ein ffocws ar ddatblygu a phrofi ein dull gweithredu gyda phrosiectau allweddol o oedd wedi'u cynllunio i gyflawni blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol. Mae'r prosiectau hyn yn sylweddol ac yn debygol o ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i ni na allwn barhau i ychwanegu mwy a mwy o brosiectau at restr gynyddol o amcanion lles.

Yn ein datganiad Lles 2019/20 gwnaethom gynnal ymarfer, sef edrych ar 3 blaenoriaeth ein cynllun corfforaethol ein hunain, gan ddadansoddi ac adolygu a ydynt dal i fod yn berthnasol ar gyfer 2019-20 wrth barhau i gefnogi dyheadau cyffredinol y BGC. (gweler **rhan 5 - Gweithio mewn Partneriaeth**). Er mwyn ein helpu i benderfynu ai ein hamcanion lles yw'r rhai cywir rydym wedi edrych ar Gynllun Asesu a Chynllun Lles y BGC. Fe roddodd hyn wybodaeth i ni am yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol a sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles.

Dywedodd ein hadolygiad wrthym fod ein blaenoriaethau presennol (a'n Hamcanion Gwella) yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylent fod yn sail i ddull diwygiedig o osod ein hamcanion lles thematig. Bydd ein dull newydd yn dal croestoriad mwy o'n gweithgaredd o dan ein hamcanion llesiant. Felly bydd adrodd ar ein hamcanion yn dangos gweithgaredd mwy eang o ran gwella lles pobl yn Nhorfaen trwy fabwysiadu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## **5. Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn parhau'n gryf ac rydym yn parhau i arwain ar hwyluso a gweinyddu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC). Mae'r BGC yn adeiladu ar drefniadau partneriaeth cadarn blaenorol a chyfredol gyda'r pedwar partner statudol (sydd yn ein cynnwys ni, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) ynghyd â phartneriaid. Gellir gweld y rhestr lawn o aelodau ar [www.Torfaenpublicservicesboard.co.uk](http://www.Torfaenpublicservicesboard.co.uk)

Gan ddefnyddio [Asesiad Lles yn Nhorfaen](#) (a gyhoeddwyd ym Mai 2017) datblygodd a chyhoeddodd BGC Torfaen ei [Cynllun Lles](#) cyntaf i Dorfaen ym Mai 2018. Mae saith amcan lles lleol yn rhan o'r strategaeth hirdymor hon, sy'n ceisio newid dros genedlaethau. Mae gweithgaredd cynnar wedi bod yn seiliedig ar archwilio ac ymgysylltu'n ddyfnach â chymunedau, sicrhau cyllid ar gyfer rhai meysydd gwaith a meithrin perthnasoedd newydd i sicrhau bod pawb sy'n gallu cyfrannu yn rhan annatod.

Mae manylion llawn y cynnydd i'w gweld yn yr [Adroddiad Blynyddol](#) cyntaf. Hefyd [ar gael](#) mae saith diweddariad ar ffurf tudalen 'cipolwg' a chyfres o flogiau fideo byr.

Mae ein datganiadau lles blynyddol a'n cynlluniau gwella bellach yn adlewyrchu ein cyfraniad at gyflawni'r gwaith partneriaeth a, lle bynnag y bo modd, rydym yn gwneud cysylltiadau rhwng ein gweithgareddau corfforaethol a gweithgareddau partneriaeth e.e. adolygu ein fflyd a chyfleoedd i symud tuag at gerbydau trydan, yr adolygiad ar wefru cerbydau trydan a sicrhau cyllid OLEV i gefnogi seilwaith gwefru.

## ➤ Ein gweithgarwch ar y cyd yn ystod 2018/19

Yn ogystal â gweithio gyda'r holl wasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen i gynllunio a darparu gwasanaethau integredig ar draws y Fwrdeistref Sirol, rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i sefydlu gwasanaethau cydweithredol a rennir.

Rydym yn defnyddio'r ffordd hon o weithio fel ffordd o wella gwasanaethau i ddinasyddion a chymunedau, lleihau ein costau a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar ein cyfer, i'r eithaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd rhan mewn chwech o weithgareddau cydweithio sylweddol:

- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Gwasanaeth Rhannu Budd-daliadau
- Gwasanaeth Troseddau Ieuencid
- Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru
- Rhaglen Eiddilwch Gwent
- Gwasanaeth TGCh y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA)

Mae adroddiadau sylweddol a ddaeth i law yn y flwyddyn flaenorol, sy'n gysylltiedig â'n partneriaethau allweddol, wedi eu nodi isod...

- i. [Cynllun Busnes y GCA \(craffu\)](#)
- ii. [Cynllun Busnes y GCA \(Cabinet\)](#)

## 6. Ein perfformiad yn ystod 2018/19

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i ni adrodd ar fanylion penodol am ein cynnydd a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Maent yn cynnwys:

- Ein Cynllun Gwella ar gyfer 2018/19;
- Y gyllideb y cytunom arni ar gyfer 2018/19;
- Ein perfformiad o gymharu â'r mesurau atebolrwydd cyhoeddus a gesglir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru; ac
- Unrhyw archwiliad allanol ac adroddiadau rheoleiddio yr ydym wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion y cynnydd a wnaed a'r gweithgareddau yr ydym wedi eu cyflawni yn y meysydd hyn, wedi eu nodi yn yr adrannau a ganlyn.

## ➤ Amcanion 2018/19 (ein cynllun gwella)

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ein holl weithgareddau a'n mesurau wedi'u cwblhau ac adroddwyd yn eu cylch trwy gydol y flwyddyn trwy ein prosesau cynllunio gwasanaethau.

Trwy ystyried ein cynnydd a'n perfformiad, rydym wedi gallu darparu asesiad byr ar gyfer pob gweithgaredd, ac egluro unrhyw dargedau a fethwyd neu berfformiad sy'n dirywio. Ar y cyd, mae hyn yn rhoi trosolwg o'n cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol.

## ➤ Ein hasesiad ar gyfer 2018/19

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni pob un o'n hamcanion gwella.

Rydym wedi nodi lle na chafodd ein disgwyliadau eu bodloni a thrwy ein prosesau cynllunio gwasanaeth, datblygwyd camau gweithredu i wella ein perfformiad yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae diweddariad mwy manwl o'n cynnydd yn y tri amcan gwella sy'n cynnwys ein [Cynllun Gwella 2018/19](#), wedi ei nodi yn **Atodiad 1 i 3** yn yr adroddiad hwn.

## ➤ Costau ein Gwasanaethau (ein cyllideb yn 2018/19)

### Ein Cyllideb Refeniw



Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2018/19 wedi ei gynnwys yn ein [Datganiad Cyfrifon](#).

Cynhyrchodd ein sefyllfa alldro danwariant ar ein cyllideb referniw o £2.2 miliwn.

Ar ôl cymhwyso cyllid o gronfeydd wrth gefn gwasanaethau penodol i ariannu sefyllfaoedd niweidiol (£ 692,000) a throsglwyddo'r tanwariant hyn (£259,000) sy'n ymwneud ag Addysg a TGCh i'w cronfeydd wrth gefn priodol. Yna fe wnaeth y sefyllfa a ddeilliodd, sef tanwariant o £2.6 miliwn yn erbyn y gyllideb gymeradwy ganiatáu trosglwyddo £1 miliwn i'r gronfa diswyddo gorfforaethol, £750,000 i gronfa wrth gefn rhaglen drawsnewid newydd a £842,000 yn ôl i falans y gronfa gyffredinol.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau o ddydd i ddydd fe wnaethom fynd i gostau yn ystod 2018/19 yn y meysydd canlynol:

- Costau cyflogai £124 miliwn,
- Costau cynnal o £137.6 miliwn a
- Chostau cyfalaf o £8.3 miliwn.

I ariannu'r costau hyn fe wnaethom dderbyn:

- £40.6 miliwn o ffioedd, taliadau ac incwm arall
- £41.5 miliwn o dreth y cyngor a,
- £190.9 miliwn o grantiau gan y Llywodraeth

### Ein Cyllideb Cyfalaf

Yn ogystal â'n gwariant referniw, fe wnaethom hefyd wario £30.8 miliwn ar ein hasedau.

Roedd ein rhaglen gyfalaf 2018/19 yn cynnwys gwario ar ysgolion, ffyrdd a llwybrau troed, a chynnal a datblygu ein hadeiladau. Fe wnaethom barhau i weithredu'r prosiectau a gymeradwywyd o fewn Band A, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a oedd yn cynnwys,

- ailddatblygu ysgol gynradd Pen-y-garn;
- cychwyn y gwaith ar Ysgol Uwchradd newydd Croesyceiliog; a'r
- Coleg Ôl-16 cyfunol newydd.

Yn ogystal â gwario ar yr ysgolion, gwnaethom hefyd ein cyfraniad cyntaf i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ffynonellau ariannu ein gwariant cyfalaf yn 2018/19 oedd:

- £2.7 miliwn o fenthyciad a gymeradwywyd gan y Llywodraeth,
- £5.4 miliwn yn dilyn benthyca darbodus,
- £20.5 miliwn o grantiau penodol a chyfraniadau eraill a ddaeth i law,
- £0.2 miliwn mewn cyfraniadau referniw, a
- £2 filiwn mewn derbyniadau cyfalaf.

Y derbyniadau cyfalaf mwyaf a dderbyniwyd yn 2018/19 oedd

- £1.5 miliwn am safle hen Ysgol Gyfun Llantarnam,
- £0.40 miliwn am ffatri uned ar Stad Ddiwydiannol Gilchrist Thomas, a
- £0.18 miliwn am ffatri uned ar Stad Ddiwydiannol Tŷ Coch Way.

Roedd yr holl dderbyniadau unigol, â chyfanswm o £0.135 miliwn dan £40,000.

Rydym yn parhau i ddiogelu'r holl dderbyniadau cyfalaf i gefnogi Band A yn ein rhaglen datblygu Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif

### ➤ Ein perfformiad o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru

Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn cynnwys cyfres fach o ddangosyddion "sy'n canolbwytio ar ganlyniadau" a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol sy'n cael eu hystyried yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygu cynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu, adroddir yn eu chylch yn genedlaethol, a'i dilysu a'i chyhoeddi'n flynyddol.

Yn 2018/19 gwnaed newidiadau sylweddol i'r mesurau a adroddir yn eu cylch a phryd adroddir arnynt yn ystod y flwyddyn. O'r herwydd, nid yw nifer o'r mesurau atebolrwydd perfformiad ar gael neu nid oes ganddynt ddata cymharol o flynyddoedd blaenorol.

Mae ein perfformiad a adroddir o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru wedi gwella mewn mwy o feysydd na'r llynedd. O'r 20 o ddangosyddion a adroddwyd gennym ar gyfer 2018/19, fe wnaeth ein perfformiad wella neu llwyddom i'w gynnal mewn 16, a gostwng mewn 7. Gellir gweld manylion pellach ein perfformiad o gymharu â gweddill Cymru ar [www.myllocalcouncil.info](http://www.myllocalcouncil.info).

Lle mae ein perfformiad wedi dirywio, rydym yn gweithio'n galed i ddeall y rhesymau dros ein gostyngiad mewn perfformiad er mwyn i ni allu ceisio gwella, os yn bosibl, yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Mae crynodeb lawn o'r holl ddangosyddion, ynghyd â'n sefyllfa ar y cyfan yng Nghymru o ran pob dangosydd, yn ymddangos yn **Atodiad 4** yn yr adroddiad hwn.

## ➤ **Gwaith rheoleiddio ac arolygu allanol**

Yn ystod 2018/19 roeddem yn destun nifer o adolygiadau gan ein rheolyddion allanol gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Rydym wedi croesawu canfyddiadau'r arolygiadau hyn ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag ein rheolyddion i roi camau ar waith i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen yn y gwasanaethau.

### **Adroddiad Gwella Blynyddol 2018-19 Swyddfa Archwilio Cymru**

Fe wnaethom dderbyn yr adroddiad hwn yn [Hydref 2019](#). Mae'r ddogfen yn crynhoi canfyddiadau'r holl weithgareddau gwella yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r adroddiad yn gyfuniad o gynigion gwella, rydym wedi eu derbyn trwy amrywiol adroddiadau archwilio gan ein harchwilwyr allanol. Mae'r cynigion hyn i greu gwelliannau, ynghyd â'n camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy wedi'u hychwanegu at ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu a Gwella. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fonitro gan ein [Pwyllgor Archwilio](#) bob chwe mis.

Dyma rhai darnau o waith allweddol a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol:

### **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) - Archwiliad o fodel newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion**

Yn ystod [yr astudiaeth](#), aeth SAC ati i archwilio i ba raddau yr ydym wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu

model newydd i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ar sail timau ardal.

Daeth SAC i'r casgliad, wrth gymryd y cam hwn a gweithredu yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod gennym nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffyrdd yr ydym wedi mynd ati i ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, yn enwedig o ran atal a chynnwys. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wreiddio pob un o'r pum ffordd o weithio'n gyson ac y gallem gryfhau ei integreiddio yn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol:

- trwy ddatblygu ein timau ardal, rydym mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion pobl yn y tymor byr a chael dealltwriaeth dda o'r manteision posibl yn y tymor hwy ond mae cyfleoedd i ystyried mwy o newidiadau cymdeithasol ehangach a allai effeithio ar yr angen yn y tymor hwy ;
- mae atal wrth wraidd y cam ac mae tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn dangos bod hyn yn digwydd. Rydym yn ystyried yn rhagweithiol sut y gallwn ddangos effeithiolrwydd ein dull ataliol;
- rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu ein dull o integreiddio ymhellach. Ar hyn o bryd nid ydym yn ystyried yn llawn sut mae'r cam hwn yn cyfrannu at ein hamcanion lles eraill ac amcanion y bwrdd iechyd;
- mae timau ardal yn cydweithredu'n dda i gyflawni'r weledigaeth ond gallem ymestyn y cydweithredu yn fewnol ymhellach ac ystyried sut y gallem effeithio ar amcanion lles cyrff eraill; a
- mae ymagwedd y Cyngor o ran cymryd rhan wedi'i ddatblygu'n dda ac wedi cyfrannu'n effeithiol at ein hailgynllunio. Gallai'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau i lywio dyluniad a'r ffordd y darperir gwasanaethau

Ni wnaeth SAC unrhyw gynigion ar gyfer gwella adroddiad archwilio Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) ond tynnodd sylw at rai meysydd datblygu y byddwn yn gweithredu arnynt.

### **Adolygiad dilynol y Gwasanaeth Gwastraff**

Yn [yr adolygiad hwn](#), mae SAC yn adolygu ein cynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion gwella a wnaed yn ein 'Hadolygiad Dilynol ar 'Rheoli Gwastraff' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015

Daeth SAC i'r casgliad ein bod wedi gwneud cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'n cynigion i greu gwelliannau ac mae rhai materion arwyddocaol

yn parhau, ond mae perfformiad wedi gwella ac mae cyflymder a ffocws o'r newydd ar gyflawni gwelliannau cynaliadwy yn y gwasanaeth gwastraff:

- rydym wedi bod yn araf yn datblygu strategaeth wastraff integredig, ond nid yw hyn wedi atal gwelliannau mewn perfformiad yn y tymor byr;
- Bellach mae craffu yn chwarae mwy o ran wrth ddatblygu'r gwasanaeth gwastraff, fodd bynnag, gellir cryfhau effaith y craffu ymhellach trwy fodd o herio mwy effeithiol;
- rydym bellach yn hyrwyddo ein safonau gwasanaeth mewn modd mwy gweithredol;
- mae cynllunio gweithlu a hyfforddiant staff yn gwella, mae arferion gwaith bellach yn fwy cyson ac rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar staff asiantaeth;
- gwnaethom gyflwyno cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw arferol rhwng gwasanaethau Fflyd a Gwastraff ym mis Gorffennaf 2018;
- rydym wedi gwella'r wybodaeth a ddarperir i aelodau ar berfformiad contractau;
- nid ydym eto wedi gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer gweithwyr gwastraff;
- rydym bellach yn defnyddio ystod ehangach o ddulliau cyfathrebu am ein gwasanaeth gwastraff i hysbysu trigolion;
- rydym wedi gwneud cynnydd o ran atgyfnerthu ein trefniadau rheoli risg strategol ar gyfer ein gwasanaeth Gwastraff ond mae angen i ni sicrhau bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli'n effeithiol; a
- nid ydym wedi monitro cynnydd yn ddigonol wrth fynd i'r afael â'n cynigion gwella yn 2015.

Er nad yw'r adroddiad dilynol hwn yn cynnwys unrhyw gynigion pellach i greu gwelliannau, nododd yr adroddiad faterion sylweddol sy'n parhau. Dyma hwy:

- egluro cyfeiriad strategol y gwasanaeth gwastraff i alluogi gwell canlyniadau cynaliadwy ar gyfer rheoli gwastraff;
- gwella monitro a rheoli risgiau lefel gwasanaeth gwastraff; ac
- cryfhau'r her o ran atebolrwydd a chraffu.

## **Adolygiad Thematig – Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau – Gwastraff Bwyd**

Fe wnaeth adolygiad o ddefnyddiwr gwasanaeth ganolbwyntio ar ailgylchu gwastraff bwyd yn ardal Trefddyn yn y Fwrdeistref Sirol. Ceisiodd yr adolygiad ddeall beth sy'n gyrru cyfraddau ailgylchu bwyd is yn y gymuned honno.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod defnyddwyr y gwasanaeth yn fodlon gyda'r gwasanaeth gwastraff bwyd, fodd bynnag, gallem ddefnyddio barn trigolion i archwilio cyfleoedd ymhellach i gynyddu cyfranogiad:

- Mae'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn ystyried ein bod wedi ystyried eu hanghenion wrth gynllunio ein gwasanaeth gwastraff bwyd ond mae'r nifer sy'n cymryd rhan ar draws y gwahanol gymunedau yn amrywio'n fawr.
- Yn gyffredinol, mae'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn fodlon ag ansawdd y gwasanaeth a'r mynediad iddo ond gwnaethant awgrymiadau i'w wella.
- Mae'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon â'r ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu â nhw ond nid oedd rhai o'r farn y bydd y Cyngor yn gwella'r gwasanaeth gwastraff bwyd.

Gwnaeth SAC naw cynnig i greu gwelliannau y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw a'u monitro wrth fynd ymlaen:

- P1. Dylem ystyried proffil oedran ac anghenion gwahanol grwpiau penodol o drigolion wrth i ni ddylunio ymyriadau i helpu i gynyddu cyfranogiad yn y gwasanaeth gwastraff bwyd.
- P2. Dylem sicrhau bod ymyriadau yn y dyfodol ynghylch ailgylchu gwastraff bwyd yn canolbwyntio ar leihau gwastraff bwyd yn ogystal â mesurau i gynyddu cyfranogiad.
- P3. Wrth ystyried newidiadau i wasanaeth yn y dyfodol, fel newidiadau i fagiau gwastraff bwyd, dylem sicrhau bod trigolion yn chwarae rhan lawn o ran helpu i ddeall a chynllunio'r newid hwn.
- P4. Dylem gyfleu ein penderfyniad i drigolion o ran gosod cadis Brown ar eu hochr ar ôl eu casglu.
- P5. Dylem fonitro'r ffordd y mae cadis Brown yn cael eu gadael ar ôl eu casglu i sicrhau bod hyn yn cwrdd â'n safon gwasanaeth.
- P6. Dylem ystyried gwelliannau a awgrymir gan drigolion i'r gwasanaeth gwastraff bwyd.
- P7. Dylem sicrhau ein bod yn targedu hyn sy'n cael ei gyfleu o ran ein Gwasanaeth Casglu â Chymorth i'r rhai sy'n debygol o fod yn gymwys.

- P8. Dylem archwilio i weld a fyddai awgrymiadau'r trigolion o ran yr hyn sy'n cael ei gyfleu o ran y gwasanaeth gwastraff bwyd, yn arwain at fwy o gyfranogiad.
- P9. Dylem archwilio sut i wella gallu trigolion i gysylltu â'r gwasanaeth gwastraff yn hawdd gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o Ap Torfaen.

## Adolygiad o drefniadau rheoli Rhaglen Drawsnewid y Cyngor (T22)

Fe wnaeth SAC gwblhau'r [adolygiad hwn](#) i roi sicrwydd bod trefniadau rheoli'r Cyngor yn darparu cefnogaeth effeithiol ac effeithlon o ran cyflawni'n Cynllun Corfforaethol.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod gwell trefniadau rheoli yn ogystal ag ymrwymiad clir ac egni o ran cefnogi Rhaglen T22 o'r newydd er bod angen atgyfnerthu ambell i wiriad a chydbwysedd:

- mae ein blaenoriaethau ar gyfer trawsnewid yn glir ac yn cyd-fynd â'n cynlluniau ariannol corfforaethol a thymor canolig, a gall hyn ddod yn gryfach wrth inni gytuno ar ei fodel gweithredu yn y dyfodol;
- rydym wedi cryfhau'r trefniadau rheoli ar gyfer y Rhaglen T22 (Cam 2) newydd, ac yn gyffredinol rydym yn deall rolau a chyfrifoldebau, ond mae angen i ni egluro cyfranogiad y pwyllgor Craffu a rolau'r Pennaeth Caffael a'r Swyddog Monitro;
- mae ein huwch arweinwyr wedi darparu cryn ymrwymiad ac egni i newid ffocws y Rhaglen yn ystod y chwe mis diwethaf, ac wedi nodi bod angen mwy o capasiti i reoli rhaglenni; a
- nid ydym wedi datblygu ymagwedd lawn o ran gwerthuso effeithiolrwydd ein trefniadau rheoli T22.

Gwnaeth SAC un cynnig i greu gwelliant y bydd angen i ni fynd i'r afael ag ef a'i fonitro wrth fynd ymlaen:

- P1. Atgyfnerthu trefniadau rheoli Rhaglen T22 trwy:
  - egluro'r hyn a wnelo:
    - Y Pwyllgor Craffu;
    - Caffael; a
    - Swyddog Monitro/Cyngor Cyfreithiol
  - atgyfnerthu'r gyd-ddealltwriaeth rhwng y Bwrdd y Rhaglen a'r Cabinet (y Grŵp Noddi) ar amserlenni ar gyfer penderfyniadau allweddol Rhaglen T22; a

- sefydlu ymagwedd gadarn o ran adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau rheoli'r Rhaglen.

## Astudiaethau Cenedlaethol SAC

Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ar nifer o astudiaethau cenedlaethol yn ystod 2018-19. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill, fel Llywodraeth Cymru. Mae rhestr o'r adroddiadau cenedlaethol hyn wedi'i chynnwys isod. Gellir gweld mwy o fanylion trwy ddilyn y dolenni:

- i. [Caffael y Capasiti i Drin Gwastraff Bwyd Gweddilliol.](#)
- ii. [Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig](#)
- iii. [Rheoli Gwastraff yng Nghymru: Ailgyrchu Trefol](#)
- iv. [Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol](#)
- v. [Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran defnyddio data](#)
- vi. [Rheoli Gwastraff yng Nghymru - Atal gwastraff](#)
- vii. [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#)

## 7. Boddhad y cyhoedd ac ymgysylltiad â dinasyddion

Rydym yn croesawu adborth gan ein trigolion a cheisiwn ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu barn wrthym. Yn 2018/19 fe wnaeth ein defnydd o gyfryngau ar-lein, cyfryngau digidol a chyfryngu cymdeithasol barhau i ehangu ar draws ein holl feysydd gwasanaeth i gynulleidfa gynyddol. Mae ein e-fwletin newyddion wythnosol a ddarperir trwy ein gwasanaeth cyfathrebu digidol 'Cadw'r Cyswllt' bellach yn dod i gyfanswm o 54 bwletin ar wahân a anfonwyd at amrywiaeth o bron i 50,000 o drigolion, partneriaid a staff.

Yn ystod 2018/19 anfonwyd 260 o e-fwletinau a gafodd eu hagor dros filiwn o weithiau gyda chyfradd agor o 38% (cyfraddau agor ar gyfartaledd yn genedlaethol yw 25%) a chafwyd bron i 40,000 o gliciau ar Facebook a 10,000 o gliciau ar twitter.

Mae ein gwasanaeth 'Cadw'r Cyswllt' yn caniatáu i ddinasyddion sydd wedi cofrestru, dderbyn gwybodaeth ragweithiol awtomataidd ar ffurf e-bost, SMS a chyfryngau cymdeithasol, a hynny ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaeth neu wybodaeth sy'n berthnasol i'w lleoliad neu eu

diddordebau. Mae ein gwasanaeth wedi datblygu i fod yn sianel gyfathrebu dorfol allweddol gyda thrigolion yn cofrestru i dderbyn bwletinâu wythnosol a gwybodaeth fwy penodol ar bynciau fel swyddi, gwastraff ac ailgylchu, beth sydd ymlaen, newyddion am ysgolion ac unrhyw aflonyddu ar wasanaethau mewn tywydd garw. Mae bwletinâu yn rhoi gwybodaeth gyhoeddus statudol a newyddion i drigolion am fentrau corfforaethol o flaenoriaeth, ein gwasanaethau a pherfformiad, ymgynghoriadau a digwyddiadau, cyfarfodydd allweddol a phenderfyniadau fel newidiadau i wasanaethau a newyddion gan bartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Fe wnaeth ein rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol hefyd barhau i dyfu wrth i ni ddefnyddio mwy o dechnegau fideo a ffotograffiaeth. Mae dros hanner cant o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol bellach ar waith ar draws ein gwasanaethu, yn cyflwyno negeseuon, ymgysylltu â chymunedau ac yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd fynegi eu barn ar safleoedd fel Facebook, Twitter a Youtube. Yn 2018/19 cafodd ein cymuned Facebook ei hoffi ar dros 15,000 o adegau ac mae gan Twitter bron i 14,000 o ddilynwyr, sy'n golygu bod bellach gennym un o'r lefelau ymgysylltu uchaf yng Nghymru.

Mae ein gwefan ymatebol yn parhau i gynyddu'r nifer o opsiynau hunanwasanaeth, 'gofyn amdano', 'rhoi gwybod amdano' neu 'dalw amdano'. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019 fe wnaeth ein tudalennau gwe cael eu gwyllo ar 2,171,442 o adegau gan 267,752 o ddefnyddwyr ar ein gwefan. Mae'r ffigurau hyn wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol oherwydd gweithredu'r polisi derbyn cwcis fel rhan o GDPR. Os nad yw unigolyn sy'n defnyddio'r wefan yn derbyn cwcis, mae dal fod modd iddo ddefnyddio'r wefan, ond ni chofnodir ei ymweliad yn Google Analytics.

Mae ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn parhau i ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd cyn eu cyfarfodydd craffu, fel bod modd ystyried ystod eang o safbwyntiau a barn fel rhan o'u gweithgarwch craffu. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i ddefnyddio'i barth Twitter ei hun i gyfleu eitemau fydd yn dod.

Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio ein gwefan ymgynghori, 'Cymryd Rhan' i alluogi dinasyddion a phobl ifanc i gael y cyfle i ddweud wrthym am eu profiadau a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'r safle yn cynnwys ymgynghoriadau cyfredol a rhai sydd ar ddod, yn ogystal â'r ymatebion a ddaeth i law mewn ymgynghoriadau blaenorol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno'r arf Deialog i'n blwch offer cynnwys pobl. Rydym yn gwybod nad ydym bob amser yn cael yr atebion i lawer o'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau heddiw a'r unig ffordd y gellir mynd i'r afael â hwy yw pan fydd pawb yn gweithio fel un, rhannu syniadau, barn a heriau fel un gymuned. Yn dwyn y teitl Torfaen Ynghyd, dyma ofod ar-lein lle gallwn ni gynnwys pobl mewn gwirionedd, gan rannu a thrafod syniadau am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae trigolion yn cymryd rhan ar y llwyfan hwn drwy bori drwy'r heriau, gyflwyno eu syniadau eu hunain neu wneud sylwadau ar syniadau a graddio syniadau pobl eraill.

Parhaodd ein 'Fforwm Pobl Ifanc Torfaen' i gyfarfod yn fisol i sicrhau bod llais gan bobl ifanc yn ein penderfyniadau. Bob blwyddyn mae'r fforwm ieuencid yn hwyluso'r bleidlais 'Gwneud Eich Marc' o fis Awst i fis Hydref.

Fe wnaeth ein panel y bobl barhau i gael ei gynnwys ym mhob gweithgaredd ymgynghori ac ymgysylltu yn cynnwys ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac mae aelodau'r panel wedi mynegi diddordeb i gefnogi'r broses graffu, y byddwn, yn ôl pob gobaith yn ei gweithredu yn y flwyddyn nesaf.

Fe wnaeth ein harolwg o foddhad trigolion yn 2018/19 rhoi cyfle i'r holl drigolion gynnig sylwadau am wasanaethau'r cyngor tra hefyd yn nodi pa mor bwysig oedd y gwasanaethau hyn iddynt hwy. Derbyniwyd cyfanswm o dros 1,200 o ymatebion ac roedd 54.5% o drigolion yn teimlo'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â gwasanaethau'r cyngor. Dywedodd 58.9% ein bod yn rhoi gwybodaeth dda i drigolion o ran ein gwasanaethau a theimlai 38.7% ein bod yn rhoi gwybodaeth dda i drigolion am berfformiad y cyngor.

Mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau yn parhau i gael eu darlledu ar y we, gan hyrwyddo natur agored, dryloyw ac atebol wrth wneud penderfyniadau. Mae nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu darlledu ar y we a'r nifer o bobl sy'n gwyllo yn parhau i gynyddu. Yn ystod 2018-19, fe wnaethom ddarlledu 60 o gyfarfodydd a gafodd eu gwyllo ar 3,980 achlysur, 918 yn fyw a 3,062 yn yr archif.

## 8. Herio ein perfformiad

Yn ystod 2018/19, fe wnaeth ein [Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu](#) barhau i chwarae rôl hanfodol o ran dal ein Cabinet sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, datblygu polisiâu lleol, herio ein polisiâu cyfredol ac adolygu'r perfformiad cyfredol i sbarduno gwella gwasanaethau. Mae mwy a mwy o

bobl yn cymryd rhan yn ein gwaith trosolwg a chraffu sydd yn helpu i lunio'r argymhellion sy'n cael eu gwneud.

Fe wnaeth ein [Pwyllgor Archwilio](#) barhau i sicrhau bod trefniadau rheoli corfforaethol yn ddigon cadarn ac mae wedi chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed gan ein harolygwyr allanol, yn rhan o'u hamserlen rheoleiddio, mewn modd amserol.

Yn ystod 2018/19 cynhaliwyd sesiynau Asesu Perfformiad Corfforaethol (APC), yn cynnwys ein Haelodau Gweithredol a'n Prif Swyddogion yn datblygu gwerthfawrogiad a pherchnogaeth gyfunol o berfformiad ar draws y sefydliad. Cynhaliwyd adolygiad o rôl ein sesiynau APC ac yn y dyfodol rhoddir mwy o bwyslais ar berfformiad yn erbyn meysydd blaenoriaeth ein Cynllun Corfforaethol.

Mae'r Aelod Gweithredol dros Wella Perfformiad a Rheoli Corfforaethol yn parhau i chwarae rhan hanfodol, gan sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliannau yn y meysydd y dywedasom y byddem yn gwneud.

## 9. Y Flwyddyn nesaf a thu hwnt

Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol agos heb os, yn parhau i fod yn heriol. Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2020/21 i 2023/24 yn rhagweld diffyg o £19.47 miliwn, gan gynnwys pwysau ysgolion, y bydd angen mynd i'r afael â hwy.

Wrth edrych ar ddatblygu cynigion i fynd i'r afael â'r heriau ariannol wrth symud ymlaen, derbynnir yn gyffredinol na allwn barhau fel y mae, ac felly rydym yn edrych ar y ffordd y defnyddir adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. I'r perwyl hwn ym mis Ebrill 2019, rhoddodd ein Cabinet sêl bendith i gychwyn ail gam 'T22', ein rhaglen drawsnewid.

T22 yw ein rhaglen i reoli'r newidiadau mawr y mae angen i ni eu gwneud dros y pedair blynedd nesaf. Bydd newidiadau yn torri ar draws nifer o'n gwasanaethau ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud pethau'n wahanol a gwneud gwahanol bethau (heb fynd ati'n gyson i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd). Bydd T22 yn gwella canlyniadau i'r cyhoedd, aelodau etholedig a'n staff yn ogystal â chreu arbedion ariannol mawr.

Rydym yn parhau i weld galw cynyddol ar wasanaethu a phwysau o ran costau, ynghyd â gostyngiad mawr mewn buddsoddiadau ac adnoddau.

Os na fyddwn yn trawsnewid trwy wneud newidiadau mawr ar draws gwasanaethau yn y tymor canolig, ein hunig ddewis arall yw bod ein gwasanaethau unigol yn unig ysgwyddo'r baich cynilo trwy'r broses gyllidebol flynyddol. Byddai hyn yn creu risg ar lefel annerbyniol i'r gwasanaethau a ddarperir, Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig.

Dyma flaenoriaethau cychwynol ein T22:

1. Gwasanaethau Plant - oherwydd ein twf uchel a pharhaus yn y galw am Wasanaethau Plant a'r gost o'u darparu, sy'n cynnwys y defnydd uchel a chynyddol o wasanaethau cost uchel.
2. Cwsmeriaid a Digidol - Gwella profiad ein cwsmeriaid, gosod penderfyniadau mor agos at y cwsmer â phosibl ac oherwydd ein twf uchel a pharhaus yn y bobl sy'n mynd ar-lein (i ddefnyddio gwasanaethau, ymgysylltu ag eraill a rheoli gwybodaeth) a'u disgwyliadau o'r profiad y byddant yn ei dderbyn, ac oherwydd y gall gwasanaethau digidol fod yn llawer mwy effeithlon, effeithiol a grymusol na modelau darparu gwasanaethau traddodiadol.
3. Gwasanaethau Cymorth - oherwydd bod gennym nifer o gyfleoedd i barhau i wneud ein gwasanaethau cymorth yn fodern ac yn effeithlon ac, wrth wneud hynny, sicrhau bod cymaint o gyllideb y Cyngor â phosibl yn cael ei wario ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen i gyflawni Blaenoriaethau a dyletswyddau statudol y Cyngor.

Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â phedwaredd thema, 'Galluogi Trawsnewid', a fydd yn sicrhau ein bod yn gwireddu buddion llawn ein blaenoriaethau T22 cychwynol a amlinellir uchod.

Mae angen i ail gam ein rhaglen drawsnewid T22 sicrhau buddion ariannol ac anariannol mawr erbyn 2022. Wrth wneud hynny mae angen i ni adeiladu momentwm a hygredd yn gyflym trwy gyflawni strategaethau cychwynol. Bydd y rhain yn ein helpu i wireddu rhai buddion yn y ddwy flynedd gyntaf a gosod y seiliau ar gyfer gwireddu'r mwyafrif o'r buddion ym mlwyddyn tri. Yn ogystal, mae angen i ni ddiffinio cyfleoedd pellach ar gyfer trawsnewid, er mwyn gwireddu buddion ar ôl 2022.

Ni fydd T22 yn datrys nac yn mynd i'r afael â'r holl heriau ariannol yr ydym yn eu hwynebu ac mae angen cydnabod hynny yn gynnar. Yn ogystal, bydd angen i ni wneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyfan, gan ganolbwyntio ar;

- Gostyngiadau effeithlonrwydd canrannol blynyddol ar draws yr holl feysydd gwasanaeth;
- Herio ein lefel sylfaenol o wariant ; a
- Y potensial am fuddsoddiad cyfalaf i leihau costau refeniw; a

Yn ystod y flwyddyn flaenorol gwnaethom adolygu ein trefniadau cynllunio gwasanaeth a hunan arfarnu ac wrth wneud hynny rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddod â chynllunio gwasanaeth ac ariannol ynghyd. Rydym wedi gwella'r canllawiau cynllunio gwasanaeth ymhellach ar gyfer 2020/21, gan barhau i ganolbwyntio'r cynllunio ar weithgareddau sy'n cyflawni newidiadau sylweddol ac integreiddio gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ymhellach yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn cyflawni'r newidiadau hynny.

Mae mesurau perfformiad a cherrig milltir a ddefnyddir i reoli gweithgareddau cynllunio gwasanaeth wedi'u gosod, a byddant yn cael eu gosod, ynghyd â thargedau i ddiffinio'r lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt y gellir eu darparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Bydd y rhain yn cael eu monitro yn y flwyddyn i ddod gan feysydd gwasanaeth a thrwy ein sesiynau Asesu Perfformiad Corfforaethol (APC).

Mae ein cynllun corfforaethol yn derbyn nad ydym bob amser yn y sefyllfa orau i arwain ar gyflawni rhai gwelliannau, a gwyddwn fod rhaid inni wella'r ffordd yr ydym yn cynllunio i gefnogi dinasyddion i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein hamcanion.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith ataliol, gan edrych ar sut y gallwn leihau dibyniaeth ar wasanaethau awdurdod lleol a ariennir yn gyhoeddus trwy waith sy'n canolbwyntio mwy ar atal a hybu mwy o hunandibyniaeth. I rai o'n gwasanaethau bydd y ffocws yn newid wrth i ni ddod o hyd i nifer gynyddol o ffyrdd i ddarparu cyngor a chefnogaeth. Ein nod yw eu hannog i weld y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol (boed yn uniongyrchol neu rhai a gomisiynir) fel y dewis olaf i'r rhai na allant helpu eu hunain neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd â chyflwyno deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a'u galw ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd benodol. Trwy gymhwyso'r dyheadau a nodir yn y ddeddfwriaeth hon, byddwn yn atgyfnerthu ein penderfyniadau, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Un o agweddau allweddol ein dull partneriaeth yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Mae'r 7 blaenoriaeth (amcanion lles) a gyhoeddir yng Nghynllun Lles y BGC yn gosod ymrwymiad gan holl bartneriaid y BGC i gydweithio i wella lles. Felly, mae angen inni sicrhau bod ein gwasanaethau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn, yn ogystal â'r gwaith y mae partneriaid unigol yn ei wneud. Er gwaethaf yr heriau ariannol parhaus o'n blaenau, i ddatblygu ymagwedd gydlynol at ddarparu gwasanaethau yn Nhorfaen gyda'n partneriaid yn y BGC, gallwn ni ar y cyd fynd ati i wella lles trigolion yn Nhorfaen.

## ATODIAD 1 - Amcan Gwella – Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd

Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2018/19 wedi'u nodi isod ...

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 1</b>	
<p style="color: green;"><b>Ein Hamcan Lles</b></p> <p style="color: green;"><b>Parhau i gyflawni ac adolygu'n anffurfiol y model Gweithio ar Sail Ardal i gyflawni gwelliannau i bob thema yn y cynllun hwn.</b></p>	<p>Mwy o lendid yn Nhorfaen trwy wasanaeth mwy effeithlon, gydag amseroedd ymateb cyflymach i dipio anghyfreithlon.</p>
<p style="color: green;"><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi ymateb i 974 o alwadau am dipio anghyfreithlon, a chliriwyd 98.97% ohonynt o fewn 5 diwrnod, felly'n helpu i gadw'n bwrdeistref i edrych yn ddeniadol ac yn ddiogel i'r cyhoedd a bywyd gwyllt. Cofrestrodd 989 o bobl i fod yn rhan o'r digwyddiad Gwanwyn Glân a buodd 150 o wirfoddolwyr wrthi'n codi sbwriel a arweiniodd at gasglu 400 bag o sbwriel.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd ardal gyda'r Aelodau i fonitro'r gwasanaeth Yn gyffredinol, rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol gan aelodau ar berfformiad y Tîm Strydlun, trwy ein gweithgaredd cynnal a chadw arferol ac o ganlyniad ymatebwyd i ymholiadau'r aelodau mewn modd amserol. Canlyniad allweddol y cyfarfodydd oedd cais inni roi mwy o bwyslais ar gamau ataliol trwy addysg, partneriaethau â manwerthwyr a grwpiau cymunedol, ochr yn ochr â gwella gorfodi. O ganlyniad, mae'r Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd wedi gofyn am baratoi Strategaeth Sbwriel yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol (2019/20).</p>	
<b>GWEITHGAREDD 2</b>	
<p>Cynnal adolygiad o leoliad yr holl finiau sbwriel. Eu plotio ar y SGDd i asesu addasrwydd. Y canlyniad fydd adroddiad ar gynaliadwyedd a'r newidiadau sydd eu hangen ar draws y Sir</p>	<p>Gwell dealltwriaeth o sut mae ein manau sy'n achosi problemau o ran sbwriel yn mapio o gymharu â lleoliad y biniau sbwriel ar draws Torfaen, gan roi'r dystiolaeth inni wneud newidiadau i leoliadau ein biniau lle bo angen.</p>
<p style="color: green;"><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi paratoi mapiau yn dangos lleoliad yr holl finiau sbwriel cyhoeddus yn Nhorfaen, gan gynnwys biniau'r Cyngor a Bron Afon. Byddwn yn gweithio gyda pherchnogion biniau preifat (manwerthwyr) yn ystod 2019/20 fel rhan o'r camau i baratoi'r Strategaeth Sbwriel, a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu unwaith y byddwn wedi cael caniatâd y perchnogion.</p>	



Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 3</b>	
<p>Trefnu 2<sup>ail</sup> ddigwyddiad Gwanwyn Glân. Defnyddio'r digwyddiad hwn i lansio'r cam o adolygu'r ymgysylltu/gwirfoddoli.</p>	<p>Gwella glendid yn yr ardaloedd lleol, darparu cefnogaeth i gymunedau gymryd mwy o berchenogaeth ar eu hardal leol gan leihau'r tebygolrwydd o sbwriel pellach; cynyddu ysbryd cymunedol; a galluogi'r trigolion i feithrin mwy o gydweddoldeb am yr ardal y maen nhw'n byw ynddi.</p> <p>Byddwn yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl a grwpiau sy'n cymryd rhan wirfoddoli mewn digwyddiadau yn y dyfodol sy'n galw am wirfoddolwyr,</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi cwblhau Gwanwyn Glân 2019 y mae'r canlyniadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal 24 o ddigwyddiadau codi sbwriel</li> <li>• casglu 342 o fapiau sbwriel</li> <li>• 305 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan, ac</li> <li>• fe wnaeth 146 o bobl ymuno â grŵp amgylchedd pwrpasol y Cyngor ar Facebook</li> </ul>	
<b>GWEITHGAREDD 4</b>	
<p>Adolygu lefel yr ymgysylltu â darparwyr bwyd cyflym presennol - i weld a oes modd gostwng swm y sbwriel.</p> <p>Adolygu'r potensial am ymgyrchoedd ar y cyd</p>	<p>Darparwyr bwyd cyflym lleol i gymryd mwy o gyfrifoldeb am faterion taflu sbwriel sy'n gysylltiedig â'u busnesau a datblygu atebion ar y cyd i broblemau a nodwyd.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Roedd yn weithgaredd a gynlluniwyd ar gyfer y llynedd ond ni ddigwyddodd. Roedd trafodaethau wedi dechrau i ganfod y ffordd orau i ymgysylltu â'r diwydiant pan benderfynwyd datblygu strategaeth sbwriel. Bydd y strategaeth sbwriel yn dwyn ynghyd nid yn unig ein data ar sbwriel / glendid amgylcheddol ond bydd hefyd yn caniatáu penderfyniad mwy strategol ac wedi'i dargedu. Bydd gan y Cyngor gwell syniad am sut y mae am fynd i'r afael â'r agenda hwn, pa fesurau rhagweithiol y mae am eu cyflwyno a hefyd pa rôl yr ydym yn disgwyl i'r cynhyrchwyr bwyd cyflym ei chael yn yr agenda hwn. Bydd hyn yn caniatáu sgwrs lawer mwy manwl a chadarn na phe byddem yn ei chynnal nawr pan fyddai'n seiliedig ar "mae gennym broblem, beth ydych yn ei wneud / beth allwch ei wneud.</p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 5</b>	
<p>Adolygu rôl swyddogion presennol sydd â rôl strydlun / gwastraff / iechyd yr amgylchedd sy'n troi eu golygon tuag allan i benderfynu a oes modd addasu rolau mewnol i gynyddu'r ddarpariaeth orfodi.</p>	<p>Mwy o hyblygrwydd yn ein gweithlu i alluogi mwy o swyddogion i ymateb i ddigwyddiadau taflu sbwriel / baw cŵn / tipio anghyfreithlon a chyhoeddi hysbysiadau gorfodi i'r rhai sy'n gyfrifol (lle mae tystiolaeth ar gael).</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Mae ein gweithwyr glanhau ein hunain a staff Bron Afon yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod atgyfeiriadau rhagweithiol yn cael eu gwneud mewn perthynas â throseddau tipio anghyfreithlon lle mae tystiolaeth ar gael i erlyn. Yn ystod 2018/19 rydym wedi cynnal 143 o ymchwiliadau i achosion o dipio anghyfreithlon gyda 64 o'r ymchwiliadau hyn yn deillio o atgyfeiriadau o adran lanhau'r Awdurdod ac 17 o ymchwiliadau yn dilyn atgyfeiriadau gan Fron Afon. Mae'r ymchwiliadau hyn wedi arwain at 3 erlyniad llwyddiannus, cyflwyno 8 rhybudd cosb sefydlog a chyhoeddi 56 llythyr rhybuddio i droseddwyr a amheuir.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 6</b>	
<p>Rheoleiddio Gwastraff - Gweithio i weithredu teledu cylch cyfyng i fonitro ardaloedd y canfuwyd eu bod yn peri problem (lle bo hynny'n bosibl) ac erlyn troseddau.</p>	<p>Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n tipio'n anghyfreithlon a chynnydd yn y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu i erlyn pobl sy'n cyfrannu at sbwriel yn y fwrdeistref.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym yn parhau i ddefnyddio Teledu Cylch Cyfyng i wyllo manau sy'n dueddol o ddenu tipio anghyfreithlon. Rydym wedi canfod safleoedd pellach i wyllo yn y dyfodol drwy ddefnyddio ail uned deledu cylch cyfyng. Mae pob safle'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod tystiolaeth teledu cylch cyfyng yn cael ei chasglu'n briodol. Mae monitro teledu cylch cyfyng yn dymhorol, oherwydd y tywydd ac amodau'r golau amgylcheddol ac ni chaiff unedau teledu cylch cyfyng eu defnyddio'n rheolaidd yn ystod misoedd y gaeaf.</p> <p>Rydym yn monitro safleoedd anghysbell yn gorfforol trwy gydol misoedd y gaeaf ac rydym yn parhau i archwilio i'r opsiynau ar gyfer monitro lle gellir defnyddio camerâu o leoliadau dan do (yn enwedig ar y cyd â Chymdeithas Tai Bron Afon). - Rydym yn gweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus a grwpiau gwirfoddol i gael gwared ar dipio anghyfreithlon cyn i wyllo teledu cylch cyfyng newydd ddechrau ddiwedd Gwanwyn 2019.</p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 7</b>	
<p>Adolygu gwaith/hyfforddiant criwiau casglu gwastraff i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd a gosod cynwysyddion yn ôl yn daclus.</p>	<p>Cyfradd uwch o foddhad gan drigolion yn Nhorfaen o ran y gwasanaeth a ddarperir gan y Criwiau Gwastraff, trwy leihau swm y gwastraff sy'n cael ei ollwng a'r difrod a achosir i gynwysyddion yn ystod cyfnodau casglu gwastraff.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi bod yn cynnal sgysiau blwch offer rheolaidd i hyrwyddo arfer da ymysg y criwiau gwastraff. Yn ystod y sesiynau hyn rydym wedi atgoffa'r criwiau i sicrhau eu bod yn dychwelyd cynwysyddion i'r man casglu ac i beidio â thafllu cynwysyddion gwastraff. Rydym yn mynd i'r afael â 'materion' ynglŷn â pherfformiad, cadarnhaol a negyddol yr ydym yn eu derbyn, a hynny'n uniongyrchol gyda'r criw gwastraff perthnasol. Yna mae ein Pen-gweithiwr gwastraff yn monitro perfformiad y criw i sicrhau nad yw'r mater yn cael ei ailadrodd. Hefyd, rydym hefyd yn cynnal gwiriad Siopwr Dirgel ac yn gwylio criwiau. Gwneir hyn ar sawl achlysur mewn wythnos. Yn ystod arolygiadau lle mae materion perfformiad yn cael eu nodi, mae hyn yn cael ei godi gyda'r criw fel y gallant ddatrys y mater tra eu bod yn mynd ati i gwblhau eu casgliadau. Mae nifer o'n Harweinwyr a Llwythwyr y Tîm Gwastraff wedi bod yn dilyn cyrsiau blwyddyn NVQ Rheoli Adnoddau Cynaliadwy NVQ Lefel 2. Rydym wedi bod yn darparu cefnogaeth i nifer o'n staff trwy'r cyrsiau hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle i'r aelod staff ddeall ei gyfraniad a phwysigrwydd gwasanaeth cwsmeriaid wrth ddarparu gwasanaeth gwastraff effeithiol i'n trigolion. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer gweithredwyr a gyrwyr yn y maes sbwriel. Rydym hefyd wedi darparu cefnogaeth i nifer o'n Llwythwyr ennill trwyddedau HGV a'r cymhwyster Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (TCP).</p> <p>Cynyddodd y cwynion yr adroddwyd amdanynt ynghylch gweithgareddau gwastraff o 6 yn 2017-18 i 18 yn 2018-19. Cyfiawnhawyd 10 o'r cwynion hyn naill ai'n rhannol neu'n llawn Roedd rhai o'r materion hyn yn gysylltiedig â gweithwyr Asiantaeth oedd yn ddibrofiad y defnyddiwyd hwy pan oedd staff ar wyliau neu'n absennol. Rydym wrthi'n recriwtio staff ychwanegol i'r gwasanaeth gwastraff i greu cronfa o weithwyr amser llawn i ddileu'r angen i ddefnyddio gweithwyr Asiantaeth pan fydd staff ar wyliau. Trwy ddefnyddio ein staff ein hunain i gyflenwi, byddwn yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y cwsmer.</p> <p>Wrth fynd ymlaen, mae ein Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ar hyn o bryd yn cysylltu â Hyfforddiant Torfaen i ddatblygu rhaglen hyfforddi fwy penodol i gynorthwyo Llwythwyr i symud tuag at swyddi Arweinwyr Tîm a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer ein Pen-gweithwyr. Bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.</p> <p>Byddwn hefyd yn ceisio digideiddio'r broses ceisiadau gwasanaeth cwsmeriaid yn llawn fel rhan o'r agenda trawsnewid digidol. Bydd hyn yn dileu'r angen am docynnau gwaith papur ac yn ein galluogi i ddyrannu swyddi yn uniongyrchol i'n timau gwastraff. Dylai'r effeithlonrwydd y bydd gwasanaeth wedi'i ddigideiddio yn ei ddarparu, ddileu oedi mewn gweithgareddau fel dosbarthu cynwysyddion.</p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 8</b>	
<p>Hyrwyddo adolygu'r defnydd o rwydi ar gynwysyddion ac adolygu a oes angen darparu mwy o wybodaeth i ddeiliaid tai i'w hatgoffa o'u manteision</p>	<p>Cynnydd yn y defnydd o rwydi ar y blwch ailgylchu du, fydd yn arwain at lai o sbwriel cysylltiedig.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi ymgymryd â nifer o fentrau wedi'u targedu i hyrwyddo'r defnydd o rwydi yn Nhorfaen. Mewn cysylltiad â Chynghorwyr Lleol, cynrychiolwyr Bron Afon a chwynion gan drigolion, rydym wedi targedu ardaloedd lle mae sbwriel gwastraff wedi'i nodi fel problem. Wrth ymchwilio i'r ardaloedd hyn, nodwyd mai ychydig iawn (llai nag 20%) o'r trigolion sy'n defnyddio'r rhwydi i ddal y deunyddiau ailgylchu yn eu blwch. O ganlyniad, mae gwastraff yn cael ei chwythu allan o'r blychau cyn i'n criwiau gasglu.</p> <p>Yn y goffennol rydym wedi cynnal ymgyrchoedd cyfathrebu ac wedi dosbarthu rhwydi yn uniongyrchol i eiddo. Rydym hefyd wedi darparu dros 100,000 o rwydi i aelwydydd yn Nhorfaen. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi mynd i'r afael â'r mater gan nad yw llawer o aelwydydd yn atodi'r rhwydi eu hunain. Yn lle, eleni rydym wedi bod yn ymweld â'r ardaloedd sydd â phroblemau sbwriel gwastraff ac yn atodi'r rhwydi ar y blychau ein hunain.</p> <p>Hyd yn hyn eleni mae'r Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu wedi atodi dros 2,400 o rwydi yn uniongyrchol ar flychau ailgylchu yn Nhorfaen. Bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn y dyfodol a byddwn hefyd yn monitro'r effaith.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 9</b>	
<p>Cysylltu â chydweithwyr yn y maes Addysg i bennu priodoldeb cynnwys gweithgaredd amgylcheddol yn y cwricwlwm - gan anelu at sbwriel ac ailgylchu yn benodol</p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu'n well ynglŷn â phwysigrwydd yr amgylchedd ac effeithiau niweidiol taflu sbwriel.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym yn darparu cefnogaeth i ysgolion gyda'n mentrau ailgylchu presennol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd blynyddol fel Criw Craff a Chadw fi'n Ddiogel sy'n cynorthwyo ysgolion i gyflawni gofynion sbwriel ac ailgylchu presennol y cwricwlwm presennol. Mae'r gweithgareddau hyn yn seiliedig ar y bwriad i lunio canllawiau cwricwlwm i ddarparu mwy o gefnogaeth effeithiol i athrawon a rhoi iddynt yr offer yn yr ystafell ddosbarth trwy ddefnyddio sbwriel a gwastraff fel sail i'r addysgu. Gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu cwricwlwm newydd, y teimlad oedd ei bod yn briodol gohirio'r gwaith hwn er mwyn caniatáu i'r cwricwlwm newydd ddatblygu ac yna rydym yn bwriadu pan fydd yr amser yn briodol i ailedrych ar y cam hwn. Credwn fod hwn yn gam gweithredu gwerthfawr ac o bosibl mae'r cwricwlwm newydd yn darparu mwy o gyfle i integreiddio, a hefyd ei fod yn sicrhau y bydd unrhyw becynnau a gynhyrchir yn berthnasol ac iddo hirhoedledd.</p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 10</b>	
Cynnal ymgyrchoedd gwastraff i hyrwyddo ailgylchu ee Dan Can	Mae cynnydd yn y ddealltwriaeth yn lleol o wastraff ac ailgylchu, cyfraddau ailgylchu cynyddol yn gwella wrth i drigolion ddeall pwysigrwydd cynyddu cymaint â phosibl o'r gwastraff y maent yn ei ailgylchu.
<b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b>	
<p>Yn ystod 2018-19 fe wnaethom barhau i hyrwyddo cynlluniau ailgylchu'r Cyngor ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau sydd wedi cynnwys Dan Can. Mewn ysgolion rydym wedi ymgymryd â'r Ymgyrchoedd Cadw Fi'n Ddiogel a oedd yn cynnwys hyrwyddo ailgylchu gyda Dan Can mewn ysgolion iau ac ysgolion babanod yn Nhorfaen.</p> <p>Rydym wedi cynnal 25 o ddigwyddiadau cymunedol ar wahân lle rydym wedi hyrwyddo ailgylchu. Mae'r rhain wedi cynnwys sgysiaid mewn grwpiau mamau a phlant bach, cyfarfodydd grwpiau 50+, arddangosiadau coginio ym Marchnad Dan Do Pont-y-pŵl, sgysiaid Cymunedol, digwyddiadau ailgylchu yn ystod yr haf yng Nghanolfan Treftadaeth Blaenafon a gweithio gyda Bron Afon ar ddiwrnodau cymunedol.</p> <p>Rydym hefyd wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau curo drws i hyrwyddo ailgylchu, yn cynnwys mewn partneriaeth â Bron Afon, lle mae materion gwastraff - fel gollwng gwastraff wedi'u canfod mewn ardaloedd penodol.</p> <p>Rydym hefyd yn parhau i gynnal archwiliadau gwastraff gyda thrigolion sy'n teimlo na allant ymdopi â'u gwastraff. Mae aelod o'n tîm yn ymweld â'r cartref ac yn mynd trwy gynnwys y bin gyda nhw i dynnu sylw at y gwastraff y gellir ei ailgylchu. Mae trigolion bob amser yn synnu at swm y gwastraff ailgylchadwy y maent yn ei daflu.</p> <p>Yn olaf, mae Tîm Cyfathrebu ein Cyngor hefyd yn hyrwyddo ein gwasanaethau ailgylchu trwy ddiweddariadau rheolaidd trwy amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau electronig. Bydd y gweithgaredd hwn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 11</b>	
Canfod potensial y teclyn digidol lle gallai'r Cyngor a'i bartneriaid reoli a blaenoriaethu pob gweithgaredd tir i sicrhau gweithio cydgysylltiedig a datblygu cynllun gweithredu i ddangos dichonoldeb ac effeithiolrwydd.	Bydd ein partneriaid sy'n berchen ar dir yn gweithio'n agos gyda ni i ddatblygu rhwydwaith swyddogaethol, cysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n cefnogi anghenion llesiant poblogaethau lleol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
<b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b>	
Cynhaliwyd astudiaeth cwmpasu digidol o ran systemau casglu a dadansoddi data Seilwaith Gwyrdd a Chyfalaf Naturiol ar wahanol raddfeydd gofodol. O'r 20 o systemau meddalwedd a nodwyd, nodwyd mai system QGIS CNC oedd yr opsiwn gorau, a fyddai'n cynorthwyo cydweithredu â CNC o ran rhannu data. Mae hyn yn cael ei ddatblygu trwy Brosiect Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Rennir yn Nhorfaen.	



Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 12</b>	
<p>Adolygu'r ffordd bresennol o weithio gyda pherchnogion tir, partneriaid a gwirfoddolwyr i bennu effeithiolrwydd y dull cyfredol, a sut y gellir ei wella i adeiladu gallu a gwytnwch tuag at yr agenda Glân a Gwyrdd.</p> <p>Pennu ymarferoldeb yr adnoddau presennol i yrru hyn ymlaen</p>	<p>Bydd ein partneriaid sy'n berchen ar dir yn gweithio gyda ni i sicrhau ein bod yn defnyddio dull cydgyssylltiedig o gynnal a chadw mannau agored, sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal a darparu cefnogaeth i drigolion wella'u cymuned.</p>
<b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b>	
<p>Rydym wedi gweithio gydag ymgynghorwyr sydd wedi'u penodi i baratoi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhorfaen. Mae gwaith wedi cychwyn ar baratoi Strategaeth Seilwaith Gwyrdd yn unol ag Amcan 1 y Cynllun Llesiant. Bydd amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid yn cymryd rhan i adolygu dulliau rheoli tir a datblygu mwy o gysondeb ar draws sefydliadau sy'n bartneriaid i'r BGC.</p> <p>Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer cydlynnydd gwirfoddolwyr ar gontract tymor penodol o flwyddyn. Rydym hefyd wedi dechrau'r broses o secondio aelod arall o staff i ddarparu cymorth ychwanegol.</p> <p>Mae ein Cydlynnydd Gwirfoddolwyr wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran datblygu rhaglenni gwaith gyda rhanddeiliaid, gan arwain at ganfod angen i baratoi Strategaeth Sbwriel i'w datblygu yn 2019/20.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 13</b>	
<p>Rhoi Cynlluniau Gwella Amgylcheddol ar waith - Cynllunio a chyflenwi prosiectau gwella'r amgylchedd ar draws y fwrdeistref yn unol â strategaethau gwasanaeth amgylcheddol y cytunwyd arnynt</p>	<p>Gwneir gwelliannau i'r amgylchedd lleol er budd ein dinasyddion lleol</p>
<b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b>	
<p>Ymgwymerwyd ag ystod amrywiol o welliannau amgylcheddol yn ystod 2018/19, yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cwblhau pont newydd Canolfan Byw Egniol Pont-y-pŵl,</li> <li>• gwelliannau helaeth i lwybr tynnu'r Gamlas rhwng Pont-y-pŵl a Chwibrân,</li> <li>• seilwaith newydd ger Basn Camlas 5 Loc, yn benodol cyfleuster pwmpio dŵr budr a man gwefru trydan i annog y defnydd o gychod,</li> <li>• dyluniadau ac amcangyfrifon ar gyfer Tanffordd Pentre' Uchaf sydd wedi arwain at gais am gyllid llwyddiannus,</li> <li>• gwaith dylunio ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer parc Pontnewydd,</li> <li>• gwaith dylunio ar gyfer llwybrau cerdded a beicio Mynydd Maen,</li> <li>• plannu coed ym Mharc Pont-y-pŵl, dylunio Cofeb Llanerch a'i weithredu'n rhannol,</li> <li>• palmant a meinciau newydd yng Nghanolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon a Maes Parcio Broad St, a dyluniadau cymunedol ar gyfer Neuadd Gymunedol Tref Gruffydd.</li> </ul>	

Ein gweithgareddau ...

Yr effaith a ddisgwylir ...

- Treuliodd swyddogion hefyd cryn dipyn o'u hamser yn paratoi lluniau o'r opsiynau a'r cysyniadau ar gyfer Clwb Pêl-droed y Ras.

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein CC3 ar gyfer 2020
<b>Mesur 1</b> % (a nifer) yr achosion o dipio anghyfreithlon a adroddwyd ac a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	Gorau po uchaf	98.55% 681.00	97%	99.03% 915 (Cliriwyd 915 allan o 924 o fewn 5 diwrnod gwaith)	↑ / 😊	98%	98%
<b>Mesur 2.</b> % y cwynion o ran glendid a ymatebwyd iddynt o fewn safonau gweithredu cymdogaethau glân i) gwydr wedi torri; ii) baw cŵn ar arwynebau caled iii) ceisiadau'n ymwneud â gordyfiant/rhwysrau	Gorau po uchaf	i. 50.77% ii. 55.93% iii. Amh	i. I'w Gadarnhau ii. I'w Gadarnhau iii. I'w Gadarnhau	i. 86.60% (84 allan o 97) ii. 95.78% (159 allan o 166) iii. 29.81% (138 allan o 463)	i. ↑ / AMH ii. ↑ / AMH iii. AMH / AMH	i. 86% ii. 86% iii. 86%	i) 86% ii) 86% iii) 86%
<b>Mesur 3.</b> % y bobl y darparwyd arolwg ar eu cyfer sy'n cytuno bod yr ardal leol yn rhydd o sbwriel NSfW (2013/14)	Gorau po uchaf	31.34% (Arolwg Trigolion Torfaen)	62%	31.14% (Arolwg Trigolion Torfaen)	= / 😞	I'w gytuno. Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW	66%
<b>Mesur 4.</b> % y bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol wedi'i chynnal yn dda NSfW (2013/14)	Gorau po uchaf	39.44% (Arolwg Trigolion Torfaen)	73%	39.14% (Arolwg Trigolion Torfaen)	= / 😞	I'w gytuno - Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW	77%

Ein gweithgareddau ...			Yr effaith a ddisgwylir ...					
<b>Mesur 5.</b> Ardal o dir o dan reolaeth bioamrywiaeth gadarnhaol	Gorau po uchaf	1,450 ha	1500 ha	1470 ha	↑ / ☹️	1,500 ha	1,500 ha	
<b>Mesur 6.</b> % y gwastraff yn yr awdurdod lleol a gafodd ei ailgylchu a'i gompostio	Gorau po uchaf	60.51%	62%	60.53% <small>(ailgylchwyd 27,889.84 o dunelli allan o 46,076.58)</small>	= / ☹️	64%	64%	
<b>Mesur 7.</b> Tunelledd y gwastraff a anfonwyd i waredu arno	Gorau po isaf	17,737 o dunelli	17,000 o dunelli	18,186.74 o dunelli	↓ / ☹️	17,000 o dunelli	16,500 o dunelli	
<b>Mesur 8.</b> Trigolion sy'n ailgylchu – a) gwastraff bwyd a b) gwastraff sych	Gorau po uchaf	61.29% 95.49%	58% 86%	61.10% 96.15%	= / 😊 ↑ / 😊	58% 86%	58% 87%	
<b>Mesur 9.</b> % yr achosion o dipio anghyfreithlon a arweiniodd at weithgarwch gorfodi	Gorau po uchaf	6.22%	5%	5.84% <small>(fe wnaeth 54 allan o 925 o achosion o dipio anghyfreithlon arwain at orfodi)</small>	↓ / 😊	6%	7%	
<b>Sut ydym yn perfformio o gymharu 2017/18 i 2018/19?</b>			<b>A ydym wedi cyrraedd ein targedau ar gyfer 2018/19?</b>					
<ul style="list-style-type: none"> <li>– Gwella</li> <li>– Gwaethygu</li> <li>– Aros yr un peth</li> <li>– Nid oes modd o gymharu</li> </ul>			 <b>Amh.</b>		<ul style="list-style-type: none"> <li>– Cyrhaeddwyd y targed</li> <li>– Ni chyrrhaeddwyd y targed</li> <li>– O fewn trwch blewyn o gyrraedd y targed</li> <li>– Ni osodwyd targed</li> </ul>			 <b>Amh.</b>



## Perfformiad yn erbyn ein targedau ar gyfer 2018/19 ...

Mae'r wybodaeth uchod yn dangos y bu rhai llwyddiannau gwirioneddol yn yr adran yn ogystal â rhai heriau. Gyda ffocws parhaus ar lân a gwyrdd gwnaed ymdrech ychwanegol i ymateb i ddiwyddiadau tipio anghyfreithlon a hefyd rhoi prosesau ar waith i ymateb yn well ac yn gyflymach i gwynion am wydr wedi torri a baw cŵn. Mae lle i wella o hyd o ran sut rydym yn ymateb i gwynion gan y cyhoedd am ordyfiant, ac i raddau helaeth mae hyn yn ymwneud â pherchnogaeth tir. Fodd bynnag, mae swyddogion yn mynd rhagddynt i sicrhau bod prosesau mor slic ac effeithlon ag y gallant fod i gyflymu amseroedd ymateb. Carem petaem ni'n gallu erlyn pob trosedd sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon (**Mesur 9.**) ac er bod 5% o'r diwyddiadau sy'n arwain at ryw fath o gamau gorfodi yn ymddangos yn isel, ond nid oes modd mynd ar drywydd llawer o'r pethau sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon, a hynny o ran yr un sy'n tramgwyddo, a'r gwastraff ei hun. Mae hwn yn faes yr ydym yn rhoi sylw manwl iddo i sicrhau bod cydweithwyr gweithredol ar y rheng flaen yn gweithio'n agos gydag iechyd yr amgylchedd i gasglu data perthnasol i weithredu lle bynnag y bo modd.

Roedd ymgyrch Gwanwyn Glân unwaith eto yn llwyddiant aruthrol. Eleni gwnaethom ganolbwytio ar gynyddu ein sylfaen gwirfoddolwyr a hyrwyddo manteision gwirfoddoli tymor hir ac fel yr adroddwyd, mae 146 o bobl wedi ymuno â'n grŵp amgylcheddol pwrpasol ar Facebook. Gwnaeth y cynllun corfforaethol ymrwymiad i weithio gyda gwirfoddolwyr a galluogi'r gymuned i wneud mwy drostynt eu hunain. Gyda swydd a ariennir gan grant yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, dyma faes o flaenoriaeth a sylw gan fod y model hwn yn dod â gwytnwch a chynaliadwyedd a hefyd yn rhoi balchder ac ymdeimlad o berchnogaeth i'r gymuned yn eu hardal leol.

Rydym ni dal i fod yn brwydro gyda gwahaniaeth rhwng data ar lendid a chanfyddiad (**Mesurau 3 a 4.**) Yn aml, mae hyn oherwydd na allwn ond mesur yr hyn yr ydym yn ei reoli (ac yn yr achos hwn mesurau amgylcheddol lleol), tra gall ystod o ffactorau nad ydynt wedi'u rhestru uchod ddylanwadu ar ganfyddiadau pobl ynghylch eu hardal. Am mai hon yw'r 2<sup>a</sup>il flwyddyn y mae canfyddiad pobl yn is na'r hyn yr hoffem ei weld, gwyddwn yr hyn sydd ei angen arnom i gwmpasu'r flwyddyn nesaf, edrych ar y rheswm dros hyn a'r hyn y gallwn ei wneud yn *wirioneddol* i wella'r canfyddiadau sydd gan bobl ynghylch eu hardal leol.

Y newyddion da yw bod Torfaen, unwaith eto, yn uwch na tharged ailgylchu Llywodraeth Cymru, sef 58% ond ni wnaethom gyrraedd ein targed ni, sef 62% (**Mesur 6.**). Byddem ni wedi llwyddo i wneud hynny petai Llywodraeth Cymru heb newid y canllawiau o ran sut yr eir ati i ailgylchu pren. Cafodd hyn hefyd yr effaith gyfatebol o gynyddu'r tunelledd a ddynodwyd i waredu arno. Fodd bynnag, cymerwyd camau ym mis Mawrth 2019 i gynyddu ein perfformiad ailgylchu ymhellach trwy gyflwyno'r camau i agor / didoli bagiau yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref a ddylai, ynghyd â chontract newydd ar gyfer ailgylchu pren, ein gweld yn cyrraedd y targed o 64% ar gyfer 2019/20.

Rydym yn llwyr gydnabod bod cymryd rhan mewn ailgylchu bwyd yn mynd i gymryd cryn amser a bod ganddo ffordd i fynd i gyfateb â'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth ailgylchu, fodd bynnag, aethpwyd ati i gyflawni'r targedau (**Mesur 8a**). Fel yr adroddwyd uchod, gwnaethom brosiect ymyrraeth wedi'i dargedu mewn un ward a adroddwyd yn ôl yn rheolaidd i Gynghorwyr trwy Seminarau Aelodau a'r cam nesaf fydd dysgu o'r prosiect hwn ac archwilio'r ffordd orau o ddefnyddio strategaethau newid ymddygiad i gynyddu cyfranogiad ar draws ein gwasanaethau.

Wrth edrych yn agos at y data rydym yn hapus iawn â'r cynnydd. O ran y meysydd hynny y mae gennym reolaeth lwyr drostynt, rydym wedi gwneud gwelliannau. Lle rydym yn cael ein dal yn atebol am ymddygiadau a chanfyddiadau pobl mae gennym gamau ar waith i sicrhau ein bod ar daith barhaus o ran gwelliannau. Mae'r data'n dangos ein bod yn parhau i flaenoriaethu Glân a Gwyrdd ac yn cyflawni ymrwymadau'r cynllun corfforaethol.

## ATODIAD 2 - Amcan Gwella – Codi Safonau Addysgol

**Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2018/19 wedi'u nodi isod ...**

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 1</b>	
Mynd i'r afael â chytundeb rhwng ysgolion uwchradd, awdurdodau esgobaethol a Choleg Gwent sy'n cydlynu opsiynau cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 3, 4 a 5.	Mae disgyblion (ac athrawon) yn Nhorfaen yn derbyn cefnogaeth i symud rhwng ysgolion a cholegau trwy fodolaeth cwricwlwm cydlynol. Bydd hyn yn sicrhau bod yna drefniadau effeithiol a pharhaus o ran cynllunio a phontio i ddysgwyr a staff
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Ein canolfan ddysgu bwrpasol newydd gwerth £24 miliwn fydd cartref yr holl addysg Safon Uwch cyfrwng Saesneg yn Nhorfaen a bydd hefyd yn cynnig Bagloriaeth Cymru ac ystod o gymwysterau lefel 2 a 3 cyflenwol. Mae'r ganolfan mewn lleoliad gwych wrth ymyl siop Morrison's yng nghanol Cwmbrân gyda chysylltiadau rhagorol â thrafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau yng nghanol y dref. Bydd yn gwasanaethu pob disgybl yn y fwrdeistref a bydd yn dod yn llwybr i fyfyrwyr yn Nhorfaen sydd am fynd ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth.</p> <p>Mae'n disodli tri 6ed dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn Nhorfaen a bydd yn cael ei reoli a'i redeg gan Goleg Gwent mewn partneriaeth â'r Cyngor. Bydd 6<sup>ed</sup> dosbarth Ysgol Croesyceiliog, Ysgol Uwchradd Cwmbrân ac Ysgol Gatholig Alban Sant yn cau ar ddiwedd tymor yr haf 2020 i gyd-fynd ag agoriad y ganolfan newydd yng Nghwmbrân ym mis Medi 2020.</p> <p>Bydd y ganolfan yn cael ei gweithredu ar fodel partneriaeth debyg i'r Parth Dysgu ym Mlaenau Gwent, lle mae myfyrwyr wedi cyflawni canlyniadau rhagorol a'u canlyniadau Safon Uwch mwyaf llwyddiannus erioed.</p> <p>Mae Panel Cwricwlwm Torfaen (PCT) yn grŵp sy'n cyfarfod yn fisol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o bob Ysgol Uwchradd yn Nhorfaen, yr Uned Atgyfeirio Disgyblion (PRU), Coleg Gwent a'r ALI. Prif ffocws PCT yw cwricwlwm CA4 (galwedigaethol a chwricwlwm amgen) ac ôl-16, yn enwedig pontio o'n 6<sup>ed</sup> dosbarth mewn ysgolion i'r Parth Dysgu yn 2020.</p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 2</b>	
<p><b>Amcan Lles</b></p> <p><b>Creu “cynnig lles” sy'n nodi gwasanaethau allweddol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ôl ystod oedran. Bydd hyn yn cynnwys Cynnig Blynyddoedd Cynnar fel y crybwyllir uchod, Cynnig Cynradd, Uwchradd a Chynnig i Oedolion Ifanc. Er y bydd hyn yn bennaf yn ganolfan gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd gan wasanaethau Addysg (gan gynnwys timau datblygu ieuencid, chwarae a chwaraeon) byddwn yn edrych at gynnwys partneriaid cysylltiedig wrth greu'r cynnig. Mae hyn yn debygol o gynnwys rhai newidiadau i'r ffordd y mae rhai timau'n gweithio ar hyn o bryd.</b></p>	<p>Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i hybu iechyd a lles. Bydd hyn yn cael effaith ar ystod o fesurau llesiant fel gwell cyflawniad.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Roedd ein gwaith cychwynnol yn ystod 2018-19 yn canolbwyntio ar fapio'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd gan ein gwasanaethau addysg (gan gynnwys timau datblygu ieuencid, chwarae a chwaraeon) yn ogystal ag lechyd trwy'r cysylltiadau i'r rhaglen Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu rhanbarthol.. O ganlyniad i'r ymarfer mapio hwnnw, rydym wedi datblygu un gronfa ddata electronig y gellir ei defnyddio bellach fel rhan o brosesau cynllunio, y gellir ei diweddaru'n rheolaidd. Rydym bellach wedi dechrau gweithio gyda'n partneriaid ar y BGC a grwpiau ehangach i ddeall pa wasanaethau lles y maent yn eu darparu gyda'r bwriad o gydlynu gwasanaethau yn well a chynyddu effaith yr holl gyllid yn well.</p> <p>Fel rhan o'i ymarfer mapio, rydym wedi dechrau edrych ar anghenion grwpiau bregus penodol gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal, disgyblion sydd wedi'u gwahardd a'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu sydd eisoes heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi bod yn edrych yn benodol ar ymyriadau blynyddoedd cynnar a phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. O ganlyniad i'r gwaith yn y meysydd hynny, rydym wedi canfod yr angen i adolygu'r hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol ar gyfer yr oedolion hynny sy'n gweithio mewn rolau a allai gefnogi lles plant a phobl ifanc.</p> <p>Yn y flwyddyn sydd i ddod, ein nod yw dechrau defnyddio'r data i ddadansoddi'r angen o gymharu â'r gwasanaethau a ddarperir ac i ddod yn fwy uchelgeisiol yn y ffordd yr ydym yn mynd ati i ddarparu a dylunio gwasanaethau. Byddwn hefyd yn dechrau datblygu rhai gweithgareddau gyda'n partneriaid yn y BGC.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 3</b>	
<p>Adolygu'r ffordd y mae'r holl Wasanaethau Addysg yn darparu cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn y blynyddoedd cynnar i sicrhau bod mwy o blant yn datblygu'r sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a hunangymorth sydd eu hangen arnynt i chwarae'n effeithiol gyda phlant eraill a bod yn barod i ddechrau dysgu pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol, bydd hyn yn cynnwys timau Blynyddoedd Cynnar cyfredol, y Gwasanaeth Chwarae a'r Gwasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu.</p>	<p>Bydd mwy o blant yn datblygu'r sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a hunangymorth sydd eu hangen arnynt i chwarae'n effeithiol gyda phlant eraill a bod yn barod i ddechrau dysgu pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol.</p>

## Ein gweithgareddau ...

## Yr effaith a ddisgwylir ...

### Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

Mae Blynyddoedd Cynnar yn darparu ymyriadau cynnar i deuluoedd i'w cefnogi gyda datblygu iaith, 'siarad' a chymorth rhianta. Mae'r Blynyddoedd Cynnar wedi adolygu llwybrau atgyfeirio ac wedi gwella prosesau, gan weithio ar y cyd â Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i sicrhau y gall teuluoedd gael gafael ar y gefnogaeth hon, a bod angen, o bob rhan o Dorfaen.

Mae'r Cynnig Gofal Plant hefyd wedi rhoi cyfleoedd i'r ALI weithio'n agosach gyda lleoliadau gofal plant ar draws Torfaen i wella'r pontio i'r ysgolion. Mae'r Blynyddoedd Cynnar wedi rhannu polisi trosglwyddo Dechrau'n Deg fel arfer da, i bob lleoliad gofal plant.

Mae'r adran Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi bod yn gweithio gyda thîm ComIT, Cyfathrebu ac Ymyrraeth, fel rhan o waith rhanbarthol ADY, i adolygu'r llwybr cyfredol ar gyfer 0-4 oed.

### GWEITHGAREDD 4

Gweithredu teclyn olrhain gwerth ychwanegol (Alps) ym mhob lleoliad ysgol ôl-16 a'i ddefnyddio i herio perfformiad. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor a rhieni i gael gafael ar wybodaeth gymharol effeithiol a sicr am berfformiad ysgolion am y tro cyntaf.

Mae gwbyodaeth sicr ac effeithiol ar gael am berfformiad ysgolion am y tro cyntaf ym mhob lleoliad ysgol ôl-16.

### Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

Mae Alps yn darparu dadansoddiad data ar sawl lefel gan gynnwys ysgol gyfan, adran, pwnc, set addysgu, grŵp tiwtor a lefel disgyblion, ynghyd â data defnyddiol arall ar garfannau, fel ethnigrwydd, rhyw neu anfantais, yn ogystal â grwpiau arfer. Mae Alps yn caniatáu i ysgolion ddadansoddi perfformiad disgyblion ar draws y cwricwlwm cyfan a'i gymharu â meincnodau cenedlaethol.

Defnyddir Alps ymhob ysgol yn Nhorfaen sydd â darpariaeth ôl-16.

### GWEITHGAREDD 5

Cyflwyno cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru.

Gwell lefelau Sgiliau Hanfodol i bobl ifanc mewn Cyfathrebu, Cymhwysio Rhif a Llythrennedd Digidol

### Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

Mae cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru yn asesu'r dysgwr o ran "cymhwysio rhif", "cyfathrebu", "llythrennedd digidol" a "chyflogadwyedd". Cafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2016 a rhaid i bob dysgwr ei gwblhau fel rhan o'u fframwaith prentisiaeth. Mae Hyfforddiant Torfaen yn darparu fframweithiau prentisiaeth trwy contract sydd ganddyn nhw gyda Llywodraeth Cymru. Mae cyrhaeddiad yn rhan o'r rheoli contract.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad ar ddata'r Fframwaith Terfynol. Cyflwynwyd y data erbyn y terfyn amser, sef yr 21<sup>ain</sup> o Ragfyr. Mae'r gyfradd cyflawniad a gyhoeddwyd ar gyfer 2018/19 o ran Sgiliau Hanfodol yn 83% (1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol).

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 6</b>	
<p>Gwella'r modd o fynd i'r afael â'r gefnogaeth a chydlynu'r gefnogaeth i bobl ifanc sy'n agored i niwed trwy weithio gyda'r partneriaid Cadw mewn Cysylltiad (KIT). Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno ymyriadau newydd gydag ysgolion, Gyrfa Cymru, Coleg Gwent a phartneriaid yn y sector gwirfoddol i annog pobl ifanc i barhau mewn addysg a'u hatal rhag dod yn NEET.</p>	<p>Mae pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael y gefnogaeth bwrpasol sydd ei hangen i'w hatal rhag dod yn NEET.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu 2 raglen gymorth - Ysbrydoli i Gyflawni (11-16 oed) ac Ysbrydoli i Weithio (pobl ifanc 16-24 oed) - sy'n targedu'r ffactorau risg unigol a allai wneud i bobl ifanc ddod yn NEET. Bob blwyddyn, ym mis Hydref, mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg o "gyrchfannau'r" holl ddisgyblion sy'n ymadael ym Mlwyddyn 11. Mae'r rheini sydd heb 'gyrchfan' yn cael eu hystyried yn NEET. Adroddir ar hyn bob blwyddyn fel un o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraethau Cymru.</p> <p>I gydlynu ymateb y Cyngor ar unigolion NEET sefydlwyd grŵp strategol i ddwyn ynghyd randdeiliaid o blith y cyhoedd, a'r Trydydd sector sy'n cynnal rhaglenni cymorth i bobl ifanc. Gelwir y grŵp strategol hwn yn Grŵp Llwybrau Positif (GLIP). Mae yna ystod o weithgorau sy'n adrodd i'r GLIP sy'n delio â rheoli / dyrannu achosion, cyngori, hyfforddi ac ymyriadau. Mae'r grŵp CC (Cadw mewn Cysylltiad) Ôl-16 yn un o'r partneriaethau hyn ac mae'n parhau i weithio'n llwyddiannus, gan gwrdd yn fisol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Llwybrau Positif yn adolygu'r ystod o weithgorau gyda'r bwriad o leihau gorgyffwrdd. Disgwylir i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau yn nes ymlaen yn 2019/20.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 7</b>	
<p>Datblygu fformat presennol y Ffair Cyrchfannau yn gynnyrch a fydd yn ymgysylltu â phob disgybl sy'n ymadael â'r ysgol a hyrwyddo'r llwybrau Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant sydd ar gael.</p>	<p>Gwneir y mwyaf o gyfleoedd i drosglwyddo'r holl ddisgyblion sy'n ymadael ym Mlwyddyn 11 sydd mewn perygl o ddod yn NEET, yn llwyddiannus i ddarpariaeth ôl-16.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Cefnogir Ysgolion Uwchradd yn Nhorfaen ynghyd â swyddogaeth y Cydlynnydd Ymgysylltu a Dilyniant a Gyrfaoedd Cymru i gynnal Ffeiriau Gyrfa a Digwyddiadau Cyrchfan bob blwyddyn i hyrwyddo cyfleoedd i unigolion ôl 16 i gefnogi cyrchfannau cadarnhaol, ochr yn ochr â rhieni.</p>	
<b>GWEITHGAREDD 8</b>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<p>Ymchwilio i nodweddion (e.e. Cymunedau yn Gyntaf), rhwystrau (e.e. Plentyn sy'n Derbyn Gofal) a ffactorau eraill yn y carfannau tair blynedd o ran bod mewn perygl o fod yn NEET neu ddod yn NEET i wella arfer a darpariaeth yn y dyfodol.</p>	<p>Gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag unigolion sy'n ymadael â'r ysgol yn dod yn NEET.</p> <p>Bydd adroddiad dadansoddi yn cael ei gwblhau ynghyd ag unrhyw gydberthynas ac argymhellion a nodwyd. Gwneir gwaith priodol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Yn aml gall rhwystrau penodol drosti i ffactorau risg fel rhan o broses monitro'r Perygl o ddod yn NEET. Felly mae angen i GLIP a'i weithgorau ddeall a ellir rhoi ymyriadau ar waith i ddarparu cefnogaeth i bobl sydd â'r fath rhwystrau penodol.</p> <p>Mae adroddiadau ystadegol bellach yn cael eu llunio yn ystod yr haf cyn dyddiad y cyrchfannau, i ganfod y rhwystrau allweddol penodol. Er mwyn adeiladu ar y rhain, gofynnwyd am ymchwil bellach ar gyfer 2019/20 i archwilio'r nodweddion hyn yn fwy manwl a'r cam nesaf fydd adolygu ymyriadau i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn briodol â'r fath rhwystrau penodol.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 9</b></p>	
<p>Sicrhau contract Dysgu Seiliedig ar Waith newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn weithredol gyfredol 2018/19.</p>	<p>Bydd cyfleoedd hyfforddi yn y gwaith yn cael eu cynnal i drigolion Torfaen.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Mae cyfleoedd dysgu yn y gwaith yn darparu llwybr da i gyflogaeth a dilyniant i drigolion lleol ac maent yn ffynhonnell dda o lafur medrus i gwmnïau yn Nhorfaen.</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru contract dysgu newydd, sy'n seiliedig ar waith i Hyfforddiant Torfaen ar gyfer 2018-19. Dechreuodd y contract hwn yn 2018. Mae'r contract yn caniatáu i Hyfforddiant Torfaen gynnig prentisiaethau i bobl leol i ddatblygu sgiliau uwch a helpu busnesau lleol i fynd i'r afael â phrinder sgiliau Yn ystod blwyddyn contract 2018/19, mae Hyfforddiant Torfaen wedi cyflwyno hyfforddiant prentisiaeth i 1,503 o drigolion lleol.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 10</b></p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<p>Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i bobl ifanc 16-24 nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant trwy gyflwyno rhaglen hyfforddeiaeth i gefnogi unigolion nad ydynt eto'n barod ar gyfer prentisiaethau neu fathau eraill o ddysgu ôl-16 i hyfforddiant yn y gwaith a monitro / olrhain cyrchfannau ar gyfer unigolion sy'n gadael y rhaglen.</p>	<p>Bydd nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n byw yn Nhorfaen nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn gostwng a bydd cynnydd yn nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p>	
<p>Mae rhaglenni hyfforddeiaeth a phrentisiaeth ar gael i bob person ifanc 16-24 oed. Ochr yn ochr â chynnig Hyfforddiant Torfaen, cynigir prentisiaethau gan Goleg Gwent, a darparwyr preifat eraill (e.e. ACT / ITEC). Mae hyn yn sicrhau ystod eang o gyfleoedd i bobl ifanc mewn meysydd fel peirianeg, adeiladu, arweinyddiaeth a rheolaeth, gweinyddu busnes, iechyd a gofal cymdeithasol a gwallt a harddwch ymhlith llawer o rai eraill.</p> <p>Mae nifer y prentisiaethau y gallwn eu cynnig trwy Hyfforddiant Torfaen wedi'i gyfyngu gan faint ei gontract gan Lywodraeth Cymru, ond mae Hyfforddiant Torfaen ar y trywydd iawn i wario ei gontract yn llawn ar gyfer 2018/19, gan gynyddu nifer y lleoedd a gynigir i'r eithaf.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 11</b></p>	
<p>Darparu mwy o gyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc 16-24 oed trwy recriwtio pobl yn yr ystod oedran honno; ymgysylltu â chyflogwyr i ddarparu prentisiaethau; ac ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai'r awdurdod ddarparu prentisiaethau.</p>	<p>Bydd pobl ifanc yn Nhorfaen yn cael cyfle i ddechrau prentisiaethau gyda'r Cyngor a chyflogwyr lleol eraill, gan wella eu sgiliau a'u cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p>	
<p>Er nad yw hwn bellach yn fesur swyddogol Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Hyfforddiant Torfaen a Thîm Datblygu Sefydliadol y Cyngor i edrych ar greu cyfleoedd i brentisiaid o fewn y Cyngor. Yn yr un modd, mae Hyfforddiant Torfaen yn datblygu ei rwydwaith o gyflogwyr lleol - gyda ffocws arbennig o gryf ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol - fel y gall gynnig ystod eang o gyfleoedd prentisiaeth a chyflogaeth.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 12</b></p>	
<p>Dyfeisio cynllun gweithredu i sicrhau bod holl ofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion wedi'u diweddarau (disgwylir yn ystod Haf 2018) yn cael eu bodloni'n llawn mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y GCA.</p>	<p>Mae'r disgwyliadau a nodir yn y model cenedlaethol newydd ar gyfer gwella ysgolion yn cael eu bodloni'n llawn a safonau'n gwella.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p>	
<p><b>Diweddarwyd y model cenedlaethol ar gyfer canllawiau gweithio rhanbarthol yn 2015:</b> "Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldeb statudol dros ysgolion</p>	

## Ein gweithgareddau ...

## Yr effaith a ddisgwylir ...

a gwella ysgolion. Mae'r model cenedlaethol yn seiliedig ar weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlynu'r gwelliant ym mherfformiad ysgolion ac addysg pobl ifanc. Prif genhadaeth a phwrpas consortia rhanbarthol yw helpu'r rhai sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc ". I'r perwyl hwn, mae Cynllun Busnes y GCA 2018-2021 yn sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni'n llawn ".

### Cynllun Busnes y GCA 2018-2021

Mae'r Cynllun Busnes hwn (2018–2021) yn amlinellu'r rhaglen waith sy'n ofynnol i barhau i sbarduno canlyniadau i blant a phobl ifanc ar draws pob ysgol yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar yr angen i godi dyhead a sbarduno gwelliant yng nghanlyniadau disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a'r arweinyddiaeth ac adeiladu system hunan-wella o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau. Mae blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Busnes 2018–2019 wedi deillio o'r cynnydd a wnaed tuag at y Cynllun Busnes blaenorol, meysydd y nodwyd eu bod yn galw am welliannau trwy brosesau hunan werthuso mewnol ac adborth gan Estyn ar arolwg y GCA. Mae'r gwelliannau sy'n ofynnol ar lefel awdurdod rhanbarthol a lleol yn gofyn am ymrwymiad cryf o weithio mewn partneriaeth i fod yn llwyddiannus.

## GWEITHGAREDD 13

Datblygu rhaglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif y Cyngor, trwy;

- gau Ysgol Gynradd Victoria a symud dysgwyr i ysgol(ion) eraill
- Cau Ysgol Feithrin Brynteg a symud dysgwyr i ddarpariaeth arall
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Cwmffwrdoer ac ychwanegu meithrin
- Dechrau adeiladau newydd Ysgol Croesyceiliog (uwchradd)
- Ailfodelu ac ailwampio Ysgol Gynradd Pen-y-garn

Mae'r holl blant yn Nhorfaen yn derbyn addysg mewn ysgolion trwy greu cenhedlaeth o Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, gydag ysgolion o'r math a'r maint cywir yn y lle cywir.

## Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni'n rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Yn ystod 2018/19 rydym wedi:

- Cau Ysgol Gynradd Victoria yn swyddogol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, ar 31/08/2018. Bydd yr adeilad nawr yn cael ei adnewyddu i'w ddefnyddio ar y cyd fel canolfan ar gyfer rhaglen gydweithredu ranbarthol gwasanaethau plant a chanolfan celfyddydau cymunedol.
- Cau Ysgol Feithrin Brynteg yn swyddogol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2017/18 ar 31/08/18. Mae'r adeilad a'r safle ehangach bellach wedi'u trosglwyddo i'n gwasanaeth Rheoli Asedau i'w werthu
- Gorffen ymestyn ac ailwampio Ysgol Gynradd Cwmffwrdoer. Ar ôl ei hail-ddatblygu, agorodd ein hysgol fel darpariaeth 3 - 11 oed ar 2018/01/09 yn ôl y bwriad.
- Parhau â'r gwaith o ailddatblygu Ysgol Croesyceiliog, sydd ar hyn o bryd ar fin cael ei gwblhau ym mis Hydref 2019.
- Cwblhawyd y gwaith oedd angen ei gwblhau yn Ysgol Gynradd Pen-y-garn.

## GWEITHGAREDD 14



Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<p><b>Amcan Lles</b></p> <p><b>Byddwn yn adeiladu canolfan 6<sup>ed</sup> dosbarth newydd yng Nghwmbrân, gyda chyllideb o £20m</b></p>	Bydd canolfan yn cael ei chreu a fydd yn gartref i holl addysg Safon Uwch cyfrwng Saesneg yn Nhorfaen gan gynnig ystod o gymwysterau lefel 3 a lefel 2.
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Mae ein gwaith ar ddarparu'r coleg chweched dosbarth (Parth Dysgu Torfaen) bellach wedi datblygu'n dda gyda holl gydrannau sylweddol y gwaith adeiladu, y cwricwlwm a'r trefniadau pontio ar waith. Rydym ar y trywydd iawn ac mae'r daith yn elwa'n fawr o barodrwydd ysgolion i gymryd rhan yn y broses, er gwaethaf y ffaith, mewn sawl achos, eu bod yn gorfod ildio'u trefniadau chweched dosbarth eu hunain i wneud lle i'r dull newydd.</p> <p>Mae'r gwaith o adeiladu Parth Dysgu Torfaen bellach yn mynd rhagddo'n dda ac mae gwaith ar y safle yn mynd rhagddo yn unol â'r rhaglen. Mae'r slab llawr gwaelod bron wedi'i gwblhau a dechreuwyd ar y gwaith o godi'r ffrâm ddur.</p> <p>Yn 2019, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd hyd yma, gyda llawer mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng Coleg Gwent a dysgwyr ysgol i sicrhau trosglwyddiad amserol a llyfn i'r trefniadau newydd.</p>	


ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020
<p><b>Mesur 1</b> % y disgyblion a gyflawnodd trothwy Lefel 2 yn cynnwys gradd A*-C mewn TGAU Saesneg/Cymraeg a Mathemateg</p> <p style="text-align: right;">Pob disgybl</p> <p>Disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim</p> <p style="padding-left: 20px;">Disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim</p> <p style="padding-left: 40px;">Bechgyn</p> <p style="padding-left: 40px;">Merched</p>	Gorau po uchaf	51.3%	59.3%	48.9% (521/1066)	↓ / ☹️	Amh.	Amh.
		54.9%	62.9%	54.5%	↓ / ☹️	Amh.	Amh.
		29.9%	38.5%	24.1%	↓ / ☹️	Amh.	Amh.
		46.1%	-	43%	↓ / Amh.	Amh.	Amh.
		56.4%	-	54.8%	↓ / Amh.	Amh.	Amh.
<p><b>Mesur 2.</b> % y disgyblion a gyflawnodd trothwy Lefel 2 yn cynnwys gradd A*-A mewn TGAU Saesneg/Cymraeg a Mathemateg</p>	Gorau po uchaf	11.34%	13.7%	10%	↓ / ☹️	Amh.	Amh.

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020
<b>Mesur 3.</b> System Categori Ysgolion- Nifer yr Ysgolion yn y Categori Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch (Canran)	Gorau po uchaf	68.75% gwyrdd neu felyn (22 o ysgolion allan o 32)  15.63% coch (5 o ysgolion allan o 32)	90% gwyrdd neu felyn  0% coch	74.19% gwyrdd neu felyn (23 o ysgolion allan o 31)  6.45% coch (2 ysgol allan o 31)	↑ / ⚠  ↑ / ⚠	90% gwyrdd neu felyn  0% coch	90% gwyrdd neu felyn  0% coch
<b>Mesur 4.</b> % yr ysgolion ar o leiaf cam 2 (B) Categori Ysgolion Cenedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion Cynradd  Ysgolion Uwchradd	Gorau po uchaf	81% (21 allan o 26)  0% (0 allan o 6)	82%  86%	88% (22 o ysgolion cynradd allan o 25)  33.33% (2 ysgol uwchradd allan o 6)	↑ / 😊  ↑ / ⚠	92% (23 allan o 25)  83% (5 allan o 6)	92% (23 allan o 25)  83% (5 allan o 6)
<b>Mesur 5.</b> % y plant [sy'n derbyn gofal a chymorth] a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4	Gorau po uchaf	9.09%	20%	17.39% (4 allan o 23)	↑ / ⚠	Amherthnasol oherwydd newid i'r carfannau	Amherthnasol oherwydd newid i'r carfannau
<b>Mesur 6.</b> Buddsoddi mewn ysgolion a chanolfan chweched dosbarth yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif	Gorau po uchaf	£9.4 miliwn	£34.4 miliwn	£22.8 miliwn	↑ / ⚠	£32 miliwn	£86 miliwn (cronnus hyd at Fawrth 2019)

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020
<b>Mesur 7.</b> Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (a nifer)	Gorau po uchaf	95.1%	heb ei osod ar hyn o bryd	92.3%	↓ / Amh.	heb ei osod ar hyn o bryd	97%
<b>Mesur 8.</b> Canran y bobl ifanc (carfan Blwyddyn 11) a adroddwyd nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.	Gorau po isaf	1.2%	1.5%	1.12% (19 allan o 1,058 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)	↑ / 😊	1.5%	1.5%
<b>Mesur 9.</b> % y disgyblion a gyflawnodd L4 yn y DPC, CA2 % y disgyblion a gyflawnodd L4 Saesneg, CA2 % y disgyblion a gyflawnodd L4 Mathemateg, CA2 % y disgyblion a gyflawnodd L4 Gwyddoniaeth, CA2  % y disgyblion a gyflawnodd L5 yn y DPC, CA3 % y disgyblion a gyflawnodd L5 Saesneg, CA3 % y disgyblion a gyflawnodd L5 Mathemateg, CA3 % y disgyblion a gyflawnodd L5 Gwyddoniaeth, CA3	Gorau po uchaf	89.49% 91.98% 91.52% 93.8%	91.4% 93% 92.9% 95.2%	91.3% 92.4% 92.9% 94.6%	↑ / 😊 ↑ / 😊 ↑ / 😊 ↑ / 😊	89.4% 91.1% 91.7% 93.3%	85.3% 87.5% 88.1% 89.4%
		88.97% 90.72% 92.36% 95.16%	91.6% 93.2% 94.2% 95.9%	88.3% 91.3% 93% 94.63%	↓ / 😞 ↑ / 😊 ↑ / 😊 ↓ / 😞	90.7% 91.2% 93.7% 94.4%	90.7% 93.7% 92.5% 95.7%

### Sut ydym yn perfformio o gymharu 2017/18 i 2018/19?

- Gwella
- Gwaethygu
- Aros yr un peth
- Nid oes modd o gymharu



### A ydym wedi cyrraedd ein targedau ar gyfer 2018/19?

- Cyrhaeddwyd y targed
- Ni chyrrhaeddwyd y targed
- O fewn trwch blewyn o gyrraedd y targed
- Ni osodwyd targed



## Ein perfformiad yn erbyn ein targedau yn 2018/19 ...

### Mesur 1. - Trothwy Lefel 2 - Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4

Nid yw cymariaethau ar gyfer y mesurau hyn rhwng y blynyddoedd bellach yn ddilys yn ystadegol oherwydd newidiadau yn y ffordd y gall cymwysterau gyfrif tuag atynt. Mae hyn oherwydd newidiadau yng nghwricwlwm TGAU yng Nghymru - lle mae chwe phwnc TGAU wedi'u diwygio - yn cynnwys Iaith Saesneg, Iaith Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Gymraeg, Mathemateg Rhifedd a Mathemateg.

### Mesur 3. a 4. - Categoriâu Ysgol

(Mae'r System Categoriaddio Ysgolion Cenedlaethol yn defnyddio pedwar dyfarniad â chod lliw i asesu ble mae ysgol ar ei thaith o ran gwella a pha lefel o her a chefnogaeth sydd ei hangen arni. Mae ysgolion yn cael eu categorio fel: Gwyrdd, Melyn, Ambr, Coch.)

Er gwaethaf peidio â chyflawni'n targedau, mae 74.19% o ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn y **categoriâu gwyrdd a melyn**. Mae hyn yn gynydd ar y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd hefyd ostyngiad yn nifer yr ysgolion a syrthiodd i **gategori coch** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd cefnogaeth ychwanegol yn parhau i gael ei rhoi i'r ysgolion hynny sydd wedi'u gosod yn y categori ambr a choch wrth fynd ymlaen a bydd y gefnogaeth yn unol â chanllawiau'r System Gategoriaddio Genedlaethol a Fframwaith Ymyrraeth Consortiwm De-ddwyrain Cymru (SEWC).

Mae'r cynnydd a wnaed yn ein hysgolion cynradd o ran perfformiad a safonau da yn y mwyafrif sylweddol o'n hysgolion wedi arwain at fwy o ysgolion yn derbyn gradd B ac uwch yng nghan 2 am arweinyddiaeth. Yn ein hysgolion uwchradd, er bod mwyafrif yr ysgolion hyn wedi gwella dros amser, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau'r gwelliannau yr ydym i gyd eisiau eu gweld. Mae'r ALI yn defnyddio'r holl ysgogiadau sydd gennym i gefnogi a herio ysgolion lle bo angen. Mae cefnogaeth helaeth i'n hysgolion ar waith gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Yn yr achosion lle mae ysgolion mewn anhawster rydym yn darparu mwy o gefnogaeth iddynt a, ein profiad ni yw ein bod yn gweld gwelliant da lle mae ysgolion, yn ymgysylltu'n llawn â ni.

### Mesur 7. - Trothwy Lefel 3

Gwelodd Torfaen ostyngiad ar y trothwy lefel 3 (cyfaint o gymwysterau ar Lefel 3 sy'n cyfateb i gyfaint 2 Safon Uwch ar raddau A \*-E). Rydym yn gweithio'n agos gydag ein hysgolion sydd â darpariaeth 6<sup>ed</sup> dosbarth a chydweithwyr yng Ngholeg Gwent i sicrhau bod y cwricwlwm a ddarperir ym Mharth Dysgu Torfaen yn briodol ac effeithiol ar gyfer ein dysgwyr yn y dyfodol.

### Mesur 9. - Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2/3

(Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn 11 oed, mae disgwyl i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a'r dysgwyr mwy galluog i gyrraedd lefel 5. O ran cyfnod allweddol 3, yn 14 oed, mae disgwyl i'r dysgwyr gyrraedd lefel 5 a'r dysgwyr mwy galluog i gyrraedd lefel 6 o 7).

Er bod ein perfformiad ar y lefelau disgwyliedig 4+ a 5+ yn is na'n targedau ar gyfer 2018/19, mae ein canlyniadau wedi gwella rhywfaint ac mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau cwricwlwm cenedlaethol disgwyliedig wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## ATODIAD 3 - Amcan Gwella - Cymorth i Bobl Fregus

Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2018/19 wedi'u nodi isod ...

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<b>GWEITHGAREDD 1</b>	
<p>Cydweithio i ddatblygu a gweithredu model "rhyddhau i asesu" ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel ac yn amserol.</p>	<p>Bydd pobl sydd wedi bod yn yr ysbyty yn cael y gefnogaeth i adael yr ysbyty unwaith y byddant yn ddigon iach i'w rhyddhau.</p> <p>Mae pobl yn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector iechyd i lansio gwasanaeth cydweithredol "Gartref yn Gyntaf", Gwent ym mis Hydref 2018. Mae ein ffordd newydd o weithio yn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos i adrannau brys, er enghraifft, unedau asesu meddygol damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac ysbyty Neville Hall.</p> <p>Yn y cyfnod rhwng y 1<sup>af</sup> o Ionawr 2019 a'r 30<sup>ain</sup> o Ebrill 2019 mae ein Timau Cartref yn Gyntaf ar draws y ddau safle wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweld 616 o gleifion, ac ar draws y garfan hon,</li> <li>• Ymweld â chleifion ar 814 o adegau i'w hasesu/darparu cefnogaeth iddynt,</li> <li>• O'r garfan hon ystyriwyd bod 349 ohonynt yn feddygol iach ac yn iawn i'w rhyddhau, ac</li> <li>• O'r rheini a ystyriwyd eu bod yn feddygol iach, cafodd 293 eu rhyddhau, sydd yn cyfateb ag 83% o gleifion yn cael eu rhyddhau.</li> </ul>	
<b>GWEITHGAREDD 2</b>	
<p><b>Amcan Lles</b></p> <p><b>Mynd ati gydag awdurdodau eraill i archwilio sefydlu menter gymdeithasol ddielw / hyd-braich ar gyfer gofal cartref i atal derbyniadau y gellir eu hosgoi i gartrefi gofal ac ysbytai, ac i hwyluso rhyddhau amserol</b></p>	<p>Bydd arbedion mewn gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion yn cael eu creu trwy sicrhau bod derbyniadau y gellir eu hosgoi i gartrefi gofal ac ysbytai yn gostwng a bod y rhai sy'n cael eu derbyn yn gallu cael eu rhyddhau mewn modd amserol.</p>

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym yn gweithio'n rhanbarthol i symud y llif gwaith hwn ymlaen, gan ffurfio rhan o raglen waith y bwrdd gofal cartref rhanbarthol sy'n cael ei harwain gan dîm trawsnewid Gwent. Ar hyn o bryd mae'r tîm hwn, ynghyd â phartneriaid rhanbarthol, yn y broses o ganfod nifer o opsiynau. Bydd y rhain yn ffurfio set o argymhellion a fydd yn cael eu gwneud erbyn diwedd 2019.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 3</b></p>	
<p><b>Amcan Lles</b></p> <p><b>Sefydlu model cyflenwi newydd yn seiliedig ar dimau ardal.</b></p>	<p>Byddwn yn darparu gwasanaethau a chymorth trwy ganfod cyfleoedd i gydweithredu'n effeithiol gydag awdurdodau eraill.</p> <p>Darperir modelau gwasanaeth amgen gyda'r sector gwirfoddol a'r 3ydd sector.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi parhau i ddatblygu ein timau ardal. Gelwir hwy yn Gynllun Cyflenwi rhan 1. Mae ein model gweithio ar sail ardal bellach wedi'i ymwreiddio'n dda ac mae'n gweithio ac yn perfformio'n dda ledled y fwrdeistref. Oherwydd llwyddiant y model ardal, mae ein Hisadran Gwasanaeth Oedolion ar hyn o bryd yn cynllunio Cynllun Cyflenwi rhan 2.</p> <p>Bydd ein hail gam o'r gwaith trawsnewid yn cynnwys nifer y newidiadau newydd i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys; gweithredu strategaeth gofal cartref, adolygu ein darpariaeth o ran gwelyau yn y tymor hir a'r tymor byr, ailddiffinio ac ailgynllunio'r ddarpariaeth cyfleoedd dydd gyda phartneriaid ac adolygu lefelau'r gefnogaeth bresennol i bobl hŷn ag anableddau dysgu mewn lleoliadau preswyl/byw â chymorth.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 4</b></p>	
<p>Defnyddio canlyniadau gwerthuso a gwblhawyd i benderfynu a yw'r gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol cyfredol yn diwallu anghenion cleifion yn ddigonol wrth eu dargyfeirio yn briodol i ffwrdd o feddygon teulu a diogelu lles staff sy'n darparu'r gwasanaeth.</p>	<p>Bydd llai o bobl yn teimlo'r angen i wneud apwyntiadau mewn meddygfeydd wrth i broblemau gael eu trin trwy wasanaethau mwy priodol.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym bellach wedi cwblhau gwerthusiad o'r gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol sydd wedi nodi nifer o feysydd lle gellir gwneud gwelliannau. Byddwn yn gweithio gyda'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth trwy gydol 2019-20 i ail-ddylunio rhannau o'r gwasanaeth i sicrhau bod gwelliannau a gofynion gweithredol a nodwyd gan feddygon teulu yn cael eu cyflawni. Mae'r meysydd lle byddwn yn ceisio gwella'r gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ansawdd y gwasanaeth a rôl y Rhagnodydd Cymdeithasol.</li> <li>• Perthnasoedd strategol - byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid strategol i fwydo a hysbysu'r trefniadau comisiynu ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol yn Nhorfaen gyda'r gwaith adolygu a gwerthuso yn ystyried ymgysylltiad yr holl bartion yn llawn.</li> </ul>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiadau strategol - byddwn yn gweithio gyda Chomisiynwyr, partneriaid Gofal Sylfaenol a Thrydydd Sector i ganolbwyntio ar gyflwyno tystiolaeth ar effaith hirach a chanlyniadau'r gwasanaeth.</li> <li>• Canlyniadau - byddwn yn datblygu gwell dealltwriaeth o'r canlyniadau i'w mesur.</li> <li>• Boddhad cleifion - byddwn yn sicrhau bod nodau ac amcanion y gwasanaeth yn eglur ar gyfer yr holl gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.</li> <li>• Y Gwasanaeth - Dealltwriaeth meddygon teulu - byddwn yn sefydlu grwpiau ffocws lled-gymdeithasol gyda chleifion, gan geisio datblygu Hyrwyddwyr Rhagnodi Cymdeithasol / mentoriaid cymheiriaid y gellir eu cefnogi i ddarparu adborth a thystiolaeth weladwy o'r newid trawsnewidiol y gall y gwasanaeth ei gynnig i feddygon teulu a staff Gofal Sylfaenol.</li> </ul>	
GWEITHGAREDD 5	
<p>Gweithredu'r strategaeth amlasiantaeth o ran plant sy'n derbyn gofal i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ddatblygu a gweithredu gwasanaeth cymorth dwys i deuluoedd (Tîm Ymateb Cyflym)</li> <li>2. Gweithredu cymorth dwys ar dai i bobl ifanc 16+ ag anghenion cymhleth</li> <li>3. Cynyddu gallu'r Tîm Cymorth Ymyrraeth Amlddisgyblaethol (MIST) gan gyflwyno dwy swydd gweithiwr cymorth ychwanegol am 2 flynedd gyda'r nod o ddychwelyd o leiaf 5 o blant / pobl ifanc o leoliadau y tu allan i'r sir.</li> </ol>	<p>Bydd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen yn gostwng trwy sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar waith i roi cefnogaeth amserol i bobl ifanc a'u teuluoedd, gan ddelio â'u problemau cyn iddynt gynyddu a dod yn fwy difrifol.</p>

## Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

1. Mae'r tîm Ymateb Cyflym wedi cael ei ddatblygu ac mae wedi'i integreiddio'n dda yn yr adran gwasanaethau plant. Mae gwerthusiad 12 mis y tîm wedi dangos cyflawniadau sylweddol o ran amcanion y tîm. O'r 120 o achosion, cafodd 102 eu hatal rhag mynd ymhellach o fewn y system derbyn gofal ac o ganlyniad, osgoi costau o £1.2m. Mae'r tîm yn gweithredu ar gapasiti llawn. Er mwyn datblygu'r gwasanaeth, cafwyd £160k ychwanegol gan y Gronfa Gofal Integredig (ICF). Bydd hyn yn ehangu cwrpas y tîm ac yn cynyddu capasiti.
2. Mewn partneriaeth â POBL (Darparwr Tai a Chymorth), rydym wedi creu gwasanaeth cymorth gwell yn lleol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth o ran tai, cymorth ac agweddau cymdeithasol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector rhentu preifat, gwella cysylltiadau â'n landlordiaid tai cymdeithasol lleol a hefyd cynnwys datblygu darpariaeth tai â chymorth pedair ystafell wely. Yn y cyfnod o Ionawr 2019 hyd yma, Gorffennaf 2019 mae 10 o bobl ifanc wedi elwa o becynnau cymorth pwrpasol o ganlyniad i'r cynllun; mae hyn yn cynnwys un person ifanc sydd wedi gallu dychwelyd i'w bro lle chafodd ei magu, a hynny o leoliad preswyl y tu allan i Gymru. Mae bodolaeth a datblygiad y gwasanaeth yn allweddol i allu darparu ystod o opsiynau llety â chymorth a llety cynaliadwy ar gyfer plant ôl-16 a phobl sy'n gadael gofal yn Nhorfaen
3. Cynyddwyd capasiti MIST ond wrth symud ymlaen ni fydd hyn yn parhau. Er bod rhai plant wedi cael eu dychwelyd i Dorfaen mae'r gallu parhaus i adeiladu ar y gronfa o leoliadau maeth therapiwtig wedi bod yn gyfyngedig. Mae cynllun parhaus ar gyfer datblygu / dilyniant MIST sy'n cynnwys mabwysiadu dull rhanbarthol gyda gwasanaethau lleol a dod â'r ddarpariaeth MIST yn fewnol er mwyn cael mwy o reolaeth fewnol wrth inni elwa ar wasanaeth rhanbarthol.

## GWEITHGAREDD 6

Archwilio'r posibilrwydd o ehangu cymorth iechyd meddwl lefel isel, trwy ryddid a hyblygrwydd a gafwyd yn sgil peilot Llywodraeth Cymru

Darperir cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel fwy helaeth mewn modd amserol ac mae nifer y bobl yn Nhorfaen y mae eu problemau iechyd meddwl yn dod yn fwy difrifol, yn gostwng.

## Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...

Rydym wedi gweithio i ad-drefnu a datblygu'r gwasanaeth cwnsela ymhellach. Mae hyn wedi arwain at ddylunio a gweithredu dull gweithredu ddeuol. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar y cyfraniad cadarnhaol y gall gweithgaredd corfforol ei gael ar iechyd meddwl. Mae ein hail elfen yn cynnwys swyddogion cydnerth yn gweithio gyda thrigolion naill ai ar lefel unigol neu ar lefel grŵp i gyd-gynhyrchu canlyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hanghenion iechyd meddwl lefel isel.

Rydym hefyd yn cydnabod ac yn nodi nifer sylweddol o drigolion sy'n dod trwy'r rhaglen sydd ag anghenion lefel uwch, sy'n galw am fewnbwn mwy priodol gan ymarferwyr Gofal Iechyd Meddwl Sylfaenol. Cyfeirir y trigolion hyn a allai fod wedi mynd heb gefnogaeth o'r blaen, at y gwasanaethau priodol.

## GWEITHGAREDD 7



Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
<p>Datblygu gwasanaethau galw heibio gyda darparwyr ar gyfer achosion sydd angen mynediad ar unwaith i gymorth er mwyn osgoi argyfwng</p>	<p>Darperir ystod o wasanaethau sy'n darparu ar gyfer anghenion amrywiol ein trigolion bregus.</p> <p>Mae'r opsiynau tai ar gyfer trigolion yn Nhorfaen yn cynyddu.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi gweithio trwy gydol y flwyddyn i ganfod y meysydd hynny y mae eu hanghenion fwyaf ac rydym wedi llwyddo i ddatblygu a gweithredu ystod o wasanaethau galw heibio. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o gymorthfeydd galw heibio am Gyngor Tai Generig sydd bellach yn cael eu rhedeg ac sy'n hygyrch i drigolion yn ddyddiol. Rydym wedi dylunio'r cymorthfeydd hyn i gysylltu â hybiau strategol allweddol ar draws Torfaen, lle mae ystod o gymorth wrth law i ddarparu gwasanaethau a chyngor ychwanegol. Mae cymorthfeydd lechyd Meddwl hefyd yn cael eu cynnal a gellir eu cyrchu bob dydd yng Nghwmbrân neu Bont-y-pŵl. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu sesiwn galw heibio ar fore Sadwrn yn llyfrgell Cwmbrân, gyda darparwr cymorth trais domestig arbenigol.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 8</b></p>	
<p>Datblygu un pwynt cyswllt / mynediad ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i leihau'r cyfnod amser rhwng atgyfeirio a darparu, a lleihau dyblygu o ran cleientiaid yn gorfod dweud eu stori</p>	<p>Darperir gwasanaeth mwy effeithlon, gan leihau'r amser rhwng atgyfeirio a darparu, gan sicrhau ein bod yn gallu darparu ystod o wasanaethau i fodloni anghenion amrywiol ein trigolion sy'n agored i niwed.</p> <p>Mae'r opsiynau tai ar gyfer trigolion yn Nhorfaen yn cynyddu.</p>
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr ar draws y sector gwasanaeth cymorth tai i ddylunio, datblygu a gweithredu un pwynt mynediad i drigolion sydd angen gwasanaethau sy'n cefnogi pobl. Fe wnaethom benderfynu ar ddull fesul cam o weithredu er mwyn profi a dilysu effeithiolrwydd y cynllun. Hyd yma rydym wedi trawsnewid yr holl wasanaethau cymorth tai a gomisiynir ac wedi ehangu'r un pwynt cyswllt a elwir yn borth atgyfeirio canolog i gynnwys cefnogaeth fel y bo'r angen, gwasanaethau rhanbarthol a gynhelir gan Dorfaen a darpariaeth tai â chymorth. Mae'r holl wasanaethau hyn bellach yn cael eu rheoli drwy'r porth atgyfeirio canolog.</p> <p>Mae'r hen ddarpariaeth Anabledd Dysgu yn parhau i gael ei drosglwyddo i'r porth atgyfeirio canolog a bydd y gwasanaeth hwn yn ôl y gobaith yn cael ei fudo ym mis Hydref 2019. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n tendro am ddarparwr newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion sy'n agored i niwed, gyda'r contract yn cychwyn ym mis Hydref. 2019</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 9</b></p>	

Ein gweithgareddau ...	Yr effaith a ddisgwylir ...
Defnyddio adborth gan ddinasyddion (yn cynnwys gofalwyr) a gafwyd o arolwg dinasyddion 2017/18 i lywio a gwella'r modd y darperir gwasanaethau	Defnyddir adborth gan ein cleientiaid a'n gofalwyr i ddatblygu ein gwasanaethau gan sicrhau bod newidiadau a wnawn i'n gwasanaethau yn briodol i'r bobl sy'n eu derbyn.
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Yn flaenorol, rydym wedi ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy'r arolwg cenedlaethol cyfredol i gleientiaid. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ymateb yn isel iawn ac nid oedd y wybodaeth yn darparu unrhyw ddata cadarn i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae cyfyngiadau a nam ar y dyluniad gyda'r holiadur cyfredol wedi cael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda llywodraeth leol, yn adolygu fformat a dyluniad y cwestiynau i wella defnyddioldeb yr arolwg. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd newidiadau i'r arolwg yn cael eu cyhoeddi'n genedlaethol. Yn ogystal â'r arolwg cenedlaethol rydym yn ddiweddar, wedi cwblhau darn o waith ymgysylltu â phobl â dementia sy'n mynychu cyfleoedd dydd. Mae'r darn hwn o waith yn rhoi cipolwg ar yr hyn y <b>'Mae diwrnod da yn ei olygu'</b> a bydd yn cyfrannu at ffurfio'r gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu yn y dyfodol mewn partneriaeth â'r bobl sy'n ei ddefnyddio.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 10</b></p>	
Ymgysylltu â thrigolion di-waith (h.y. y rhai sy'n cael eu cyflogi ond sydd â rhwystrau rhag gweithio'n llawn amser) a'u cynnwys yn y prosiect Meithrin, Cymhwys, Ffynnu. Mae'r Prosiect yn y Cam Cynllunio Busnes a rhagweilir y bydd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn hon	Gall trigolion sy'n gweithio sydd â rhwystrau rhag gweithio'n llawn amser yn Nhorfaen gael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.
<p><b>Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...</b></p> <p>Ni chymeradwywyd y prosiect Meithrin, Cymhwys, Ffynnu yn ffurfiol tan fis Tachwedd 2018 oherwydd oedi mewnol o fewn y corff cyllido. O'r herwydd, nid oeddem yn gallu gweithredu'r prosiect erbyn y dyddiad cychwyn a drefnwyd ym mis Mai 2018. Mae hyn wedi effeithio ar ein perfformiad o gymharu â'n targedau ar gyfer 2018/19. Fodd bynnag, fe wnaethom lwyddo i gyflwyno'r prosiect erbyn diwedd 2018/19. Ers i'r prosiect ddod yn weithredol rydym wedi gwneud cynnydd da ac rydym eisoes yn ymgysylltu ac yn cynorthwyo trigolion nad ydynt yn gweithio o fewn eu gallu i gael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd gwaith.</p>	
<p><b>GWEITHGAREDD 11</b></p>	
Cynnig cefnogaeth briodol i gyfranogwyr y prosiect i sicrhau bod gennym y cymorth cywir ar waith. Cynnal grwpiau ffocws cyflogadwyedd gyda chyfranogwyr y prosiect i ymgynghori a llunio prosiectau cyflogaeth posibl yn y dyfodol.	Mae'r rheini sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn ymwneud â llunio cymorth cyflogaeth a natur prosiectau cyflogaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cymorth addas.



**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2018/19...**

Rydym wedi cyflwyno Prosiect NET Torfaen sydd wedi galluogi trigolion yn Nhorfaen i gyrchu sgiliau a chymorth cyflogaeth am ddim i bob oed ar draws Torfaen, gan ddarparu gwasanaethau i'r rheini sy'n ddi-waith, y rhai sy'n gweithio sydd angen cynyddu sgiliau a'r rheini sy'n gweithio dros dro neu'n rhan amser sy'n chwilio am swyddi "gwell".

Gohiriwyd cyflwyno rhaglen LIC, "Cymru'n Gweithio", fodd bynnag, rydym wedi ymestyn y rhaglenni hyfforddeiaeth a phrentisiaeth bresennol i sicrhau bod gan drigolion fynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt o hyd. Yn gyffredinol, mae ymgysylltu â chleientiaid wedi bod o fewn amrywiant i'r rhaglen a thargedau boddhad cwsmeriaid o ran y cyngor a dderbyniwyd (a gymerwyd o'r arolygon ACL). Mae hyn wedi bod yn gyffredinol ar draws y rhaglen.

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020/21
<b>Mesur 1.</b> % yr oedolion a gwblhaodd cyfnod ail alluogi:  a. A chael pecyn gofal gostyngol a chymorth 6 mis yn ddiweddarach b. A heb fod â phecyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	Gorau po uchaf	46.03%	10%	80.94% <small>(nid oes pecyn gofal gan 310 allan o 383)</small>	↑ / 😊	50%	50%
		79.24%	30%	77.28% <small>(nid oes pecyn gofal gan 296 allan o 383)</small>	= / 😊	80%	80%
<b>Mesur 2.</b> % yr oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a heb gysylltu â'r gwasanaeth am 6 mis	Gorau po uchaf	90.74%	heb ei osod ar hyn o bryd	93.26% <small>(1590 allan o 1705 heb gysylltu â'r gwasanaeth)</small>	↑ / AMH	90%	90%
<b>Mesur 3.</b> Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn	Gorau po isaf	6.32	5	3.24	↑ / 😊	5	5
<b>Mesur 4.</b> % y trigolion yn Nhorfaen lle cafodd mynediad i'r ysbty ei osgoi yn dilyn atgyfeiriad 'Meddygol Chwim' i'r gwasanaeth Llesgedd gan y Meddyg Teulu	Gorau po uchaf	98% <small>(Ebrill 2017 – Mawrth 2018)</small>	Heb ei osod	97.78% <small>(27 achos o oesi wrth drosglwyddo gofal)</small>	= / AMH	96%	96%
<b>Mesur 5.</b> % y bobl sy'n fodlon ar y gofal a'r gefnogaeth a gawsant [gwasanaethau oedolion]	Gorau po uchaf	83.04%	75%	84.19%	= / 😊	85%	85%

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020/21
<b>Mesur 6.</b> % y plant a gafodd gefnogaeth i barhau i fyw yn eu teulu	Gorau po uchaf	56.84%	51%	51.92% (Cafodd 447 allan o 861 o blant gymorth i fyw yn eu teulu)	↓ / 😊	68%	58%
<b>Mesur 7.</b> % y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref a gadael gofal yn ystod y flwyddyn (D.S. Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys plant sy'n dychwelyd i'w cartref ond heb gael eu rhyddhau o ofal)	Gorau po uchaf	11.82%	13%	24.02% (fe wnaeth 122 allan o 508 o blant ddychwelyd i'w cartref)	↑ / 😊	12%	12%
<b>Mesur 8.</b> Amser a dreuliwyd ar gyfartaledd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Gorau po isaf	187.46 o ddiwrnodau (tua 6 mis)	230 o ddiwrnodau	203 o ddiwrnodau	↓ / 😊	185 o ddiwrnodau	185 o ddiwrnodau
<b>Mesur 9.</b> Ail-gofrestrïadau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Gorau po isaf	5.8%	9%	1.14% (2 allan o 175 o blant a gofrestrwyd yn gofrestrïadau)	↑ / 😊	5.4%	5.5%
<b>Mesur 10.</b> % y gofalywyr sy'n adrodd eu bod yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth i barhau yn eu rolau gofal	Gorau po uchaf	55.17%	95%	57.78%	↑ / 😞	75%	75% (2016/17)
<b>Mesur 11.</b> % (a nifer) y teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth gan y Rhaglen Gymorth i Deuluoedd sydd wedi dangos gwelliannau amlwg mewn o leiaf 3 canlyniad	Gorau po uchaf	85.6% 126	75%	83.51% 81 (mae 81 o deuluoedd allan o 97 wedi gwneud gwelliannau amlwg)	↓ / 😊	95%	95% (2016/17)
<b>Mesur 12.</b> % yr achosion lle llwyddwyd i atal digartrefedd (s66)	Gorau po uchaf	56.44%	50%	54.59% (llwyddwyd i atal 238 o achosion allan o 436)	↓ / 😊	55%	60%

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020/21
<b>Mesur 13.</b> % y bobl y mae s75 yn ddyledus iddynt, y cafodd eu rhyddhau'n gadarnhaol	Gorau po uchaf	71.79	68%	68.04% (llwyddwyd i rhyddhau 66 allan o 97)	↓ / 😊	65%	70%
<b>Mesur 14.</b> % y 'Bobl Sy'n Derbyn Cefnogaeth' sy'n cyflawni'r canlyniadau a ganlyn  SP1: Teimlo'n Ddiogel SP6: Rheoli Arian SP9: Yn Gorfforol Iach SP10: Yn Feddyliol Iach	Gorau po uchaf	55.89 53.26 54.54 52.07	62% 58% 59% 54%	92.89% 91.51% 91.84% 90.21%	↑ / 😊 ↑ / 😊 ↑ / 😊 ↑ / 😊	62% 58% 59% 54%	62% 58% 59% 54%
<b>Mesur 15.</b> % yr oedolion (16 a hŷn) sy'n cael cymorth cyflogaeth yr ydym yn eu symud ymlaen i fyd gwaith	Gorau po uchaf	34.94%	18%	22.65% (mae 1,040 allan o 4,592 o oedolion yn symud ymlaen i fyd gwaith)	↓ / 😊	18%	18%
<b>Sut ydym yn perfformio o gymharu 2017/18 i 2018/19?</b>		<b>A ydym wedi cyrraedd ein targedau ar gyfer 2018/19?</b>					
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwella</li> <li>- Gwaethygu</li> <li>- Aros yr un peth</li> <li>- Nid oes modd o gymharu</li> </ul>		 <b>Amh.</b>		<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyrhaeddwyd y targed</li> <li>- Ni chyrrhaeddwyd y targed</li> <li>- O fewn trwch blewyn o gyrraedd y targed</li> <li>- Ni osodwyd targed</li> </ul>		 <b>Amh.</b>	

ein dulliau mesur llwyddiant yn y gweithgareddau hyn	Cyfeiriad y daith	ein perfformiad yn 2017/18 Perfformiad	ein targed yn 2018/19	ein perfformiad yn 2018/19	gwella / cyflawnwyd y targed	ein targed yn 2019/20	Targed ein 3ydd CC yn 2020/21
--	-------------------	--	-----------------------	----------------------------	------------------------------	-----------------------	-------------------------------

### Perfformiad yn erbyn ein targedau ar gyfer 2018/19 ...

#### Mesur 6.

Er ein bod wedi gosod targed, mae hyn yn anodd gan ei fod yn faes cymhleth sy'n newid dros amser. Er enghraifft, mae rhai teuluoedd yn ymgysylltu'n fwy cadarnhaol nag eraill, mae pob achos yn wahanol a dim ond yn ôl ei deilyngdod ei hun y gellir ei farnu.

#### Mesur 8.

Mae gwaith gyda theuluoedd y mae eu plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn gymhleth ac mae llwyddiant yn amrywiol, ond dim ond cyhyd ag y bernir bod angen iddynt wneud hynny y mae plant yn aros ar y gofrestr. Gweler 9. Bydd yr aelodau'n sylwi bod nifer yr achosion o ailgofrestru yn is, sy'n awgrymu bod yr ymyrraeth wedi bod yn llwyddiannus.

#### Mesur 10.

Mae'r maes gwasanaeth yn cydnabod y pwysigrwydd enfawr y mae gofalwyr yn ei chwarae o ran cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r ymateb a gawn i'r arolwg blyneddol ac mae angen i ni feddwl am ffyrdd eraill o deimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Rydym yn cydnabod na fyddem yn gallu cyrraedd ein targed gwreiddiol o 95% sy'n cael ei adlewyrchu yn y targed 19/20 newydd

## Atodiad 4 – Ein perfformiad yn 2018/19 – Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

### Crynodeb – 20 o ddangosyddion

↓	<u>7</u> dangosydd – Gostyngiad mewn perfformiad (35%)
=	<u>1</u> dangosydd – Perfformiad cyson (5%)
↑	<u>9</u> dangosydd – Perfformiad gwell (45%)
<b>Amherthnasol</b>	<u>3</u> dangosydd - (15%)

Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19
<b>Gofal Cymdeithasol i Oedolion</b>										
<b>PAM/024</b>	Canran yr oedolion sy'n fodlon â'u gofal a chymorth	↑	<b>84.19</b>	83.04	82.74	Amh.	Amh.	Amh.	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)



Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	
PAM/026	Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth	↑	<b>57.78</b>	55.17	66.67	Amh.	Amh.	Amh.	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)	
<b>Gofal Cymdeithasol i Blant</b>											
PAM/027	Canran y plant sy'n fodlon â'u gofal a chymorth	Amh.	<b>86.59</b>	Amh. (Heb ei gasglu)	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)	<b>Amh.</b> (LIC heb adrodd ar ddata cymharol Cymru gyfan)
<b>Tai</b>											
PAM/012	Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref	↓	<b>54.59</b>	56.44	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	<b>19<sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterl Isaf</b>	<b>17<sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterl Isaf</b>	

Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19
PAM/013	% yr anheddau'r sector preifat fu'n wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol	↑	13.15	6.97	33.23	42.45	56.51	56.93	2 <sup>ail</sup> yng Nghymru Chwarterel Uchaf	5 <sup>ed</sup> yng Nghymru Chwarterel Uchaf
PAM/015	Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd y cymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl	↓	280.85	218.41	228.00	198.78	166	269.27	19 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterel Isaf	11 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterel Canol
<b>Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd</b>										
PAM/018	Canran yr holl geisiadau cynllunio a bennwyd o fewn yr amser	↑	86.61	82.64	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	15 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwarterel Canol	17 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterel Isaf
PAM/019	Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	↑	90.91	54.55	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	1 <sup>af</sup> yng Nghymru Chwarterel Uchaf	14 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarterel Canol

Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19
PAM/023	% y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n eang' â safonau hylendid bwyd	↑	92.29	88.73	94.29	90.17	93.58	92.74	21 <sup>ain</sup> yng Nghymru Chwarter Isaf	22 <sup>ain</sup> yng Nghymru Chwarter Isaf
<b>Addysg</b>										
PAM/006	Sgôr pwyntiau capio 9 ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion blwyddyn 11	Amh.	327.7	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	18 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwarter Isaf	Amh.
PAM/007	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	=	94.52	94.60	94.8	94.88	94.7	93.56	15 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwarter Canol	19 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarter Isaf
PAM/008	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	↑	94.04	93.71	93.7	93.70	93.5	92.54	9 <sup>fed</sup> yng Nghymru <sup>u</sup> Chwarter Canol	16 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarter Canol

Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19
PAM/009	% y disgyblion sy'n ymadael ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu hyfforddiant	↓	1.8	1.12	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	17 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwartzel Isaf	7 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwartzel Canol
<b>Gwasanaethau Cymdogaeth</b>										
PAM/010	% y priffyrdd a thir perthnasol a arolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol	↑	96.51	93.5	93.4	95.00	92.9	95.80	10 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwartzel Canol	16 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwartzel Isaf
PAM/011	Nifer y dyddiau ar gyfartaledd y cymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon	Amh.	1.17	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	4 <sup>ydd</sup> yng Nghymru Chwartzel Canol	Amh. (nid yw data cymharol Cymru gyfan ar gael ar hyn o bryd)
PAM/020	% y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	↓	2.48	2.12	1.69	1.37	1.18	1.52	3 <sup>ydd</sup> yng Nghymru Chwartzel Uchaf	2 <sup>ail</sup> yng Nghymru Chwartzel Uchaf
PAM/021	% y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	↓	4.77	4.33	4.19	5.60	5.60	5.59	15 <sup>fed</sup> yng Nghymru Chwartzel Canol	11 <sup>eg</sup> yng Nghymru Chwartzel Canol
PAM/022	% y prif nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	↑	5.07	5.31	5.97	6.97	7.58	8.66	4 <sup>ydd</sup> yng Nghymru Chwartzel Uchaf	3 <sup>ydd</sup> yng Nghymru Chwartzel Uchaf

Cyf	Dangosydd	Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2017/18 a 2018/19)	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2014/15	Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2013/14	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19	Sefyllfa Cymru gyfan yn 2018/19
<b>Hamdden</b>										
<b>PAM/017</b>	Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	↓	<b>8905.55</b>	9043.79	8,593.00	8,377.17	7,296	7,596.94	<b>13<sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarter Canol</b>	<b>8<sup>fed</sup> yng Nghymru Chwarter Canol</b>
<b>Adnoddau Dynol</b>										
<b>PAM/001</b>	Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn oherwydd absenoldeb salwch	↓	<b>11.23</b>	11.12	10.82	10.12	10.6	Amh.	<b>15<sup>fed</sup> yng Nghymru Chwarter Canol</b>	<b>17<sup>eg</sup> yng Nghymru Chwarter Canol</b>

**D.S.** Nid yw nifer o fesurau ar gael ar hyn o bryd, sef:

- PAM/033 – Canran y disgyblion a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- PAM/034 – Canran y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf)
- PAM/036 – Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gyflawnwyd fesul 10,000 o aelwydydd
- PAM/040 – Canran y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau)
- PAM/041 – Canran y cleientiaid NERS a gyflawnodd y rhaglen ymarfer corff
- PAM/041 – Canran y cleientiaid NERS a welodd eu hiechyd yn gwella ar ôl cyflawni'r rhaglen ymarfer corff
- PAM/030 – Canran y gwastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio
- PAM/043 – Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person
- PAM/025 – Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed a hŷn
- PAM/028 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd mewn amser
- PAM/029 – Canran y plant sy'n derbyn gofal yr oedd rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy